# Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 459 | Mawrth 2025 | Pris £1.50



# Brecwast Gŵyl Ddewi Gŵyl Rhinwedd a Moes

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn hanes eglwysi Bedyddwyr ac Annibynwyr Taf a Chleddau, eglwysi sy'n ffinio Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, yw cael dod ynghyd i frecwast yng Nghaffi Beca, Efail-wen a hynny ar drothwy Gŵyl Dewi. A dyna ddigwyddodd, yn ôl yr arfer ar ddydd Sul, Chwefror 23ain.

Daeth dros 80 ynghyd er gwaetha'r storm a'r glaw. Profwyd cymdeithas gynnes o amgylch y byrddau a bu'r cymdeithasu yn frwd.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu a chafwyd arweiniad defosiynol gan y Parchedig Guto Llywelyn, Hendy gwyn ar Daf a'r cylch a'r Parchedig Ken Thomas, Maenclochog.

Cyfeiliwyd y canu i'r emynau pwrpasol gan Ceirios Jenner, organyddes yng Nghalfaria, Login. Darllenodd Ann Siriol, Mynachlog-ddu eiriau'r emyn sy'n crynhoi rhinweddau, delfrydau a phwrpas cynnal yr ŵyl arbennig hon sef, Gŵyl Rhinwedd a Moes, yr hen Gymanfa Ddirwest slawer dydd.



Y Prifardd a'r Prif lenor Dylan Iorwerth, Alltyblaca wahoddwyd i annerch ac yn unol â'r disgwyl, cafwyd ganddo neges berthnasol a chyfoes yn sôn yn benodol am ddau Undodwr o bwys, sef y Parchedig D Jacob Davies (1916-1974) a'r Parchedig Ddoctor Arthur Powell Davies (1902-1957) Washington, Unol Daleithiau'r Amerig. Roedd enw a chyfraniad Jacob Davies yn gyfarwydd i'r gynulleidfa, ond, enw dieithr oedd Arthur Powell Davies. Fe'n goleuwyd, serch hynny, yn y traethu hwylus a'r paratoi manwl am gyfraniad y gwron Arthur Powell Davies fel gweinidog mawr ei ddylanwad yn yr Amerig.

Casglwyd y swm anrhydeddus o £400 tuag at Ymchwil Clefyd Parkinson.

Bu'n orig wir fendithiol ac adeiladol, a braf oedd inni gael dod ynghyd fel aelodau eglwysi'r cylch ar achlysur mor arbennig.

Diolchwyd i Dylan am ei anerchiad ac hefyd i Robert a'r staff yng Nghaffi Beca am weini brecwast bendigedig ar ein cyfer.

*Parchg Eirian Wyn Lewis*



Pawb fu'n cymeryd rhan yn yr Ŵyl

## Dathlu Gŵyl Ddewi



Rhai o ddisgyblion Ysgol Griffith Jones yn eu gwisg Gymreig.

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Mae'n Ddiwrnod Myfyrdod Covid-19 wrth i mi ysgrifennu'r golofn hon y mis hwn, sy'n gyfle i gofio am anwyliaid a fu farw yn ystod y cyfnod aruthrol o anodd hwnnw. Yn ôl ystadegau swyddogol, mae mwy na 12,000 o bobl wedi marw yng Nghymru ar ôl cael eu heintio â Covid ers mis Mawrth 2020.

Ar 23 Mawrth, bydd yn union bum mlynedd ers i'r cyfnod clo cyntaf gael ei gyflwyno. Roedd Boris Johnson wrth y llyw yn Downing Street a Mark Drakeford yn Brif Weinidog Cymru. Ar lefel wleidyddol, mae tipyn wedi newid ers hynny – dau brif weinidog wedi olynu Mr Drakeford, a thri wedi olynu Mr Johnson.

Ond dyw'r sefyllfa ym maes cyflogaeth ac yn ein cymunedau ddim wedi newid ar y fath raddfa, ers cyfnod Covid. Mae gweithio o adref yn dal i fodoli, gyda swyddfeydd llawer gwacach nag oedden nhw yn 2019, a nifer wedi eu cau yn gyfangwbl. Mae nifer o weithwyr wedi dychwelyd yn rhannol i'w lleoliad gwaith, ond mae'n debygol fod y trefniant cyn Covid yn perthyn i'r gorffennol, ac na fydd modd troi'r cloc nôl yn llwyr.

Dyw'r adfywiad ddim wedi digwydd yn lleol chwaith, gyda busnesau, boed yn fwytai neu siopau yn ei chael hi'n anodd agor eu drysau bob diwrnod o'r wythnos, oherwydd prinder staff yn bennaf. Ac mae ystadegau diweddar hefyd yn awgrymu nad yw nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chymru wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

Yn ein cymunedau, mae yna heriau sy'n parhau. Dywedodd Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru ar raglen Bwrw Golwg ar Radio Cymru fod eglwysi yn gorfod meddwl am fentrau newydd bellach am fod cynifer o ysgolion Sul wedi dod i ben ar ôl y pandemig. Ac yn seicolegol, mae hunanynysu yn ystod y cyfnodau clo wedi achosi problemau yn ddiweddarach, wrth i rai ei chael hi'n anodd cymdeithasu unwaith yn rhagor.

Ond mae agweddau cadarnhaol hefyd. Mae'r cyfnod hwnnw bum mlynedd yn ôl wedi ein dysgu i beidio â chymryd ein rhyddid yn ganiataol. Rydw i'n sicr yn gwerthfawrogi byd natur a sŵn yr adar yn canu yn llawer mwy erbyn hyn. Cawsom amser yn y cyfnod hwnnw i sylwi go iawn ar yr hyn sydd o'n cwmpas.

Ac rydw i'n atgoffa fy hun o hynny yn aml. Ac mae'n bur debyg ein bod ni ar y cyfan yn fwy ymwybodol o'r angen i olchi ein dwylo yn drylwyr. 'Dw i'n falch o ddweud hefyd nad ydw i'n meddwl bellach am y 'rheol ddwy fetr', sef y pellter cymdeithasol yr oedd angen ei gadw ar y pryd. Ond rydw i'n dal i gofio milfeddyg yn dweud wrthai mai hyd buwch arferol oedd dwy fetr! Roedd rhan ohonof yn ofni y byddai rhyw baranoia ynof o hyd ac y byddai sefyll yn agos at rywun yn anghyfforddus am weddill fy oes. Ond fel bodau dynol, mae gennym y ddawn o daflu pethau i gefn y cof, pan rydym yn dymuno gwneud hynny. Ac erbyn hyn mae sefyll yng nghanol torf mor naturiol ag erioed i mi yn bersonol, diolch byth.

Ac wrth gwrs, mae'r byd digidol wedi carlamu ymlaen ers y cyfnod clo hwnnw. Mae modd gwylio oedfa ar y we, cynnal cyfarfodydd gwaith dros y we, ac yn ein tŷ ni , mae'r arferiad o 'Faceteimio' neu "Messengo" Nain a Taid a Mam-gu a Tad- cu, wedi parhau, er ein bod ni yn dal i weld nenfwd gwyn yn hytrach na wyneb o dro i dro !

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
CWMBACH: Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans 01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis 01994 419495 jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@outlook.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

Geiriau sydd yn adnabyddus i ni gyd dw i'n siŵr yw:

Byddwch lawen, cadwch y ffydd,
a gwnewch y pethau bychain.

Mae'r geiriau yma yn dod o bregeth olaf ein nawddsant. Ac er bod yr ymadrodd cyfan yn enwog, does dim amheuaeth ein bod yn canolbwyntio ar y rhan bach olaf, y geiriau hynod enwog erbyn hyn,
'GWNEWCH Y PETHAU BYCHAIN'.

Dyma beth i ni'n dweud wrth blant bach yn ein hysgolion ac Ysgolion Sul wrth iddyn nhw ddathlu yn eu gwisgoedd Cymreig. Mae e'n orchymyn rhwydd i ddysgu i bobl ifanc, ceisiwch wneud y pethau bach hynny sydd yn mynd i adlewyrchu cariad a charedigrwydd at eraill.

Fel bob pregethwr da cymerodd Dewi Sant ei bregeth o'r Beibl, ac fe aeth i lythyron Paul, yn bennaf i'r llythyr tuag at y Philipiaid. Fe ysgrifennodd Paul y llythyr yma yn ystod un o adegau mwyaf heriol ei fywyd, wrth iddo eistedd mewn carchar tywyll du am gydnabod Iesu fel y Meseia. Mae'r llythyr yn cael ei alw yn lythyr o lawenydd, yn lythyr o ddiolch i'r Philipiaid am bopeth roedden nhw wedi gwneud i'r ffydd Gristnogol. Hefyd mae e'n lythyr o her, i'w hannog nhw i gadw fynd. Ac wrth i Dewi ddod i ddiwedd ei fywyd, dyna'n gywir oedd e am i'w ddilynwyr i wneud, cadw fynd, i adeiladu eglwys Iesu.

Gorchmynodd Paul i bobl i fod yn llawen. Yn y llythyr i'r Philipiaid, sydd ond yn 4 pennod yn y testament newydd, fe wnaeth e'r gorchymyn dair gwaith. Byddwch yn llawen. Ac os i chi'n darllen hanes Paul, does dim ryw lawer ganddo i lawenhau ynddo. Fe ddigwyddodd llawer o bethau iddo druan. Cafodd ei arestio am ddim rheswm, cafodd ei longddryllio, cafodd ei gnoi gan neidr, a cafodd ei daflu i'r carchar. Roedd pob rheswm dan haul gydag e gyntachi, troi oddi wrth Dduw, dweud wrth ei hunan, pam dw i'n poeni, ond dyma fe yn penderfynu yn ei lythyr i'r Philipiaid, ddweud y geiriau, 'Byddwch lawen.' Bob amser, byddwch lawen yn yr Arglwydd. Dim unwaith, dim dwywaith ond tair gwaith.

Ond y neges dw i am i ni feddwl amdano yw hyn - Dydy e ddim yn dweud wrthom ni i lawenhau yn ein hunain. Mae e yn dweud byddwch yn llawen yn yr Arglwydd. Dibynnwch arno, pwyswch arno, sylweddolwch ei fod E yna. Dim ar adegau, dim am gyfnodau, ond bob amser.

Efallai eich bod chi'n eistedd ac yn darllen y myfyrdod syml yma, a meddwl bod ddim rhyw lawer gyda chi i fod yn llawen amdano, a bod ddim syniad gyda Dewi a Paul am beth o nhw'n siarad. Ond dw i am i chi feddwl ***pam*** ddywedodd y ddau y geiriau 'Byddwch lawen'. Sylweddolodd y ddau fod bywyd yn galed, achos fe wnaethon nhw fyw bywyd caled. Teimlon nhw y straen o ofid, a'r pryderon sydd yn taro ni i gyd.

Felly ma nhw'n gorchymyn ac yn annog;

Byddwch yn llawen bob amser am eich bod yn perthyn i'r Arglwydd, a byddwch lawen a cadwch y ffydd.

I orffen, dyma ychydig o gwestiynau i chi fyfyrio arnynt.

Ydych chi wedi bod drwy yr adegau hynny ble mae llawenydd yn teimlo ym mhell i ffwrdd? Ydych chi yn dewis dibynnu ar eich ffydd drwy y cyfnodau anodd hynny?

Dydw i ddim yn dweud bod yr atebion gyda fi. Dw i ond yn dweud, wrth ddibynnu ar rhywbeth sydd yn fwy, sef ein ffydd yn Nuw, gallwn deimlo'n ddiogel ac yn llawen wrth i stormydd bywyd daro.

Yng ngeiriau y diwinydd, Henri Nouwen: Dydy llawenydd ddim yn dod yn rhwydd bob tro, mae'n rhaid i ni ddewis llawenydd a pharhau i'w ddewis bob dydd. Pob bendith. ***Y Parch. Sian Elin Thomas***

# Clonc a Phosau John Arfon

Hoffwn gydymdeimlo ac unrhyw un sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Mae dechrau'r flwyddyn hon wedi bod yn greulon i nifer fawr o aelwydydd y fro. Hefyd, hoffwn ddymuno llwyr iachad i lawer o'r ardal sydd wedi bod yn anhwylus neu yn yr ysbyty ac wedi derbyn llawdriniaeth, brysiwch adref.

Pan oeddwn yn Llwynhelyg yn ddiweddar cyfarfyddais â Huw George oedd newydd dderbyn ychwaneg o driniaeth ac roeddwn wir yn falch o'i weld cystal ac yn eithaf calonogol. Pob dymuniad da Huw, mae pawb yn cofio atat ac yn dymuno'n dda iti.

Syfrdanwyd yr holl ardal o glywed am farwolaeth sydyn Haydn Lewis, Tyddyn Haul, Hendygwyn fore ddydd Llun, Chwefror 24ain. Roedd yn athro yn yr Ysgol Ramadeg pan ddechreuais yno, a buom yn ffrindiau am yr holl amser. Roedd yn un o'r dynion mwyaf addfwyn a charedig ac ni chlywais ef erioed yn colli ei dymer na chodi ei lais at unrhyw un. Gwelais ef ychydig wythnosau yn ôl wedi iddo ddathlu ei benblwydd yn 98 oed, ac yr oedd mewn hwyliau da. Cydymdeimlwn ag Anna a'i theulu a diolchwn iddynt hwy a llawer o'i gymdogion a'i ffrindiau fu'n gofalu ac yn gwmni iddo dros y blynyddoedd diwethaf hyn.

Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad dwysaf a Tony a Margarette Hughes, a'r teulu, Maes y Ffynnon, Hendygwyn, ar farwoleth sydyn a thruenus eu hwyr ifanc. Hyderwn yn fawr y bydd gofal a chariad Duw yn fendith iddynt yn eu galar a'u trallod.

**Dyma ddau i'ch diddori y mis hwn**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | O |
| | X | | | X | |
| | | | | X | |
| O | | O | | | |
| | | | X | | |
| X | | O | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | | | | 1 | | | |
| | | 2 | | | | | | 9 |
| | | 1 | 7 | | 5 | | | |
| 9 | 4 | | | 7 | | | | 5 |
| 8 | | | 4 | | 9 | | | 3 |
| 1 | | | | 2 | | | | 8 |
| | | | 6 | | 8 | 9 | | |
| 4 | | | | | 7 | 5 | | |
| | | | 1 | | | | 6 | |

**Dyma atebion y Cwrosw a'r Chwilrif mis Chwefror**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | O | X | X | O |
| X | O | O | X | O | X |
| X | O | X | O | X | O |
| O | X | O | X | O | X |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | X | O | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 2 | 7 | 8 | 5 | 4 | 3 | 1 | 6 |
| 3 | 8 | 5 | 2 | 1 | 6 | 4 | 7 | 9 |
| 4 | 6 | 1 | 3 | 7 | 9 | 5 | 8 | 2 |
| 2 | 3 | 6 | 4 | 9 | 1 | 8 | 5 | 7 |
| 5 | 7 | 9 | 6 | 8 | 3 | 2 | 4 | 1 |
| 8 | 1 | 4 | 7 | 2 | 5 | 9 | 6 | 3 |
| 7 | 4 | 8 | 1 | 3 | 2 | 6 | 9 | 5 |
| 1 | 5 | 2 | 9 | 6 | 8 | 7 | 3 | 4 |
| 6 | 9 | 3 | 5 | 4 | 7 | 1 | 2 | 8 |

**Dyma atebion posau y mis diwethaf**

Y geiriau canol oedd yn cysylltu yw

1. Newydd, 2. Dafydd, 3. Mair. 4. Ffug, 5. Olwyn, 6. Pren, 7. Celwydd, 8. Dydd. 9. Priodas. 10. Siwgwr, 11. Nadolig, 12. Ysgol, 13 Canu, 14. Penblwydd, 15. Tô

**Dyma atebion y Chwilrif Mawr**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 6 | 3 | 12 | 5 | 9 | 10 | 7 | 11 | 8 | 1 | 4 |
| 8 | 4 | 5 | 9 | 1 | 12 | 3 | 11 | 7 | 10 | 2 | 6 |
| 1 | 11 | 7 | 10 | 4 | 2 | 6 | 8 | 3 | 12 | 5 | 9 |
| 11 | 7 | 8 | 6 | 3 | 10 | 1 | 12 | 5 | 4 | 9 | 2 |
| 9 | 3 | 10 | 2 | 7 | 4 | 5 | 6 | 1 | 11 | 8 | 12 |
| 12 | 5 | 1 | 4 | 8 | 11 | 9 | 2 | 10 | 6 | 7 | 3 |
| 4 | 8 | 9 | 5 | 11 | 1 | 2 | 3 | 12 | 7 | 6 | 10 |
| 7 | 12 | 2 | 11 | 10 | 6 | 4 | 9 | 8 | 5 | 3 | 1 |
| 3 | 10 | 6 | 1 | 12 | 8 | 7 | 5 | 9 | 2 | 4 | 11 |
| 10 | 9 | 4 | 8 | 2 | 7 | 11 | 1 | 6 | 3 | 12 | 5 |
| 5 | 1 | 11 | 7 | 6 | 3 | 12 | 4 | 2 | 9 | 10 | 8 |
| 6 | 2 | 12 | 3 | 9 | 5 | 8 | 10 | 4 | 1 | 11 | 7 |

**Dyma atebion i gystadlaetrhau rhifyn y Nadolig.**

**A. Cerdyn Nadolig:** Wedi ail-drefnu y llythrennau dyma'r enwau dylech eu cael.

1. Deiniol, 2. Gwenora, 3. Gwyndaf, 4. Ceinwen, 5. Cledwyn, 6. Blodwen, 7. Rhianwen

Yr enw a gaech trwy ddarllen i lawr y blychau oedd **DWYNWEN.**

**B. Cloc y Cwch Gwenyn**
1. Graddio, 2. Trafod, 3. Diafol, 4. Diweddu, 5. Gweled, 6. Cerdded, 7. Cernyw, 8.Cynyddu, 9. Adduned, 10 Teledu, 11. Rhywsut, 12. Cywion.

**C. Croesair y Goeden Nadolig**
Yn anffodus 'roedd un blwch yn ormodol yn y grid yn 58 a 60 i lawr, ac hefyd roedd y cliw i rif 53 i lawr ar goll. Gobeithio yn fawr na wnaeth hyn fod o broblem fawr ichwi.

**Ar Draws**

2. Llwch
5. Abel
7, Lamp
9 .Bil
11. Llid
13. Cylch
14. Elw
15. Pinc
19. Unlle
20. Buddug
21. Roma
22. Dymuno
23. Adfer
26 . Diafol
28. Eden
30. Iwan
32. Gwer
34 Glaw
36. Cyfnod
38. Egr
40. Lerpwl
44. Cydnabod
46. Llythyrdy
47. Byrfyfyr
49. Pobi
51. Glasenw
54. Deri
57. Cneua
59. Ernes
63. Barwn
64. Amser
65. Glansefin
66. Crafu
68. Dyfed

*Yn anffortunus ni chefais unrhyw ymateb i gystadleuaeth y Nadolig, ac felly nid oes neb yn ennill y gwobryon.*

**I Lawr**

1. Hwyl
3. Gwe
4. Adda ,
6. Baich
8. Maip
9. Blaenori
10. Cleddyf
12. Dibryder
13. Caneuon
16. Cymraeg
17. Abba
23. Doe
34. Dente
25. Esgor
27. Law
29. Dic
31. Wedi llwgu
33. Eglwyswr
35. Ail
37. Ymbil
39. Gŵyl San Steffan
41. Wyres
42. Enlli
43. Mynd
44. Copa
45. Dwyn
47. Bore
48. Reis
50. Babi
52. Lala
53. Nerf
55. Euro
56. Erw
57. Cnaf
58. Erg
60. Non
61. Salm
62. Ust
66. Crafu
67. Dyfed

---

**Dyma atebion cystadleuaeth y Cyfansoddwyr a osodwyd yn rhifyn Ionawr.**

Wedi croesi'r enwau i gyd allan, dylech gael trwy ddarllen y llythrennau oedd heb eu croesi allan y ddau gyfansoddwr hyn o Gymru sef **MATHIAS** (William) ac **ARWYN** (Robat).


Siomiant mawr imi oedd mai dim ond un ymgais a ddaeth i law yn y gystadleuaeth hon. Er hynn rwy'n falch o ddweud cafwyd yr atebion cywir gan Nesta Howells, Bancyfelin a hi sydd yn ennill y wobr o lyfr Cymraeg, llongyfarchiadau mawr iddi. Am fod costau post mor uchel, a allwch gysylltu â mi ar 01994 240536 os gwelwch yn dda er mwyn hwyluso ichwi gael eich gwobr.

Mae dau bôs gweddol rwydd i'ch diddori y mis hwn. Y cyntaf yw ceisio cwblhau y Cencen.

Dyma'r rheolau. Yn y grid mae'n rhaid i'r rhifau o 1 i 5 gael eu cynnwys ymhob llinell a cholofn unwaith yn unig. Mae'r rhifau sydd i fod yn y blychau sy'n amgaeedig gyda'r llinellau tywyll (neu'r caets) yn gorfod cytuno (mewn unrhyw drefn) i roi'r rhif a'r modd o'i gael. Os byddai 6+ gennych yn y gornel gallech gael 1 a 5 neu 2 a 4 yn unrhyw drefn Pob hwyl ichwi gyda'r datrys. Byddwch yn ofalus rhwng ÷ a +.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4÷ | | 7+ | | 2- |
| 2÷ | 6+ | | 900x | |
| | | | | 4÷ |
| 8+ | | 1- | | |
| | 3x | | 2÷ | |

**Dyma'r ail bôs**
Yn y pyramid canlynol mae cyfanswm y ddau flwch isaf yn rhoi'r ateb i'r blwch uwch eu pen pob tro. Gan ddefnyddio eich rhesymeg gweithiwch allan pa rif sydd i fod ymhob blwch.




---



# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr
Cyfarchion y gwanwyn i chi gyd! Mae gweld y cennin Pedr yn ein perthi ac ambell i oen bach newydd yn prancio'n ein caeau, yn arwydd gobeithio fod tymor y gwanwyn wrth y drws.

Mae'n amser i gael y Cardi Bach unwaith eto a hyfryd yw nodi bod sawl un wedi ymaelodi'n barod eleni, gan gynnwys rhyw ddwsin o aelodau newydd. Serch hyn, mae yna ddigon o le i ragor!

Bydd rhestr o holl aelodau'r clwb yn ymddangos yn rhifyn mis Ebrill o'r Cardi Bach.

Diolch yn fawr a chadwch yn ddiogel,
*Rhian*


---

# Corlan

Cyflwynodd Corlan arian tuag at wahanol elusennau unwaith eto yn ddiweddar. Mae Corlan wedi bod yn canu ers rhyw ddeunaw mlynedd erbyn hyn, ac rydym yn ymarfer yn rheolaidd yn Llanboidy. Mae'r arian rydym yn codi am gyngherddau yn cael ei roi at achos da, a dyma'r elusennau sydd wedi elwa y tro hwn:

Cymdeithas Strôc Cymru - £500
Ymchwil Cancr Cymru - £500
Cymdeithas Alzheimer - £500
Uned Cemotherapi ysbyty Llwynhelyg - £250
Uned Cemotherapi ysbyty Glangwili - £250

Diolch i bawb sydd wedi ein gwahodd i ganu mewn cyngerdd ac wedi mynychu'r digwyddiadau. Rydym yn ei werthfawrogi yn fawr.



# PENBLWYDD HAPUS



Pen-blwydd Hapus i Gruffudd Llewelyn yn 9 oed ar 20fed o Chwefror. Cariad mawr, Mami, Dadi, Gwilym Huw a Mamgu Waunfach.



Penblwydd hapus i Sara Elena Jones, Blaenau, Rhydaman a fydd yn 7 oed ar 25ain o fis Ebrill. Llawer o gariad wrth Dad, Mami, Gwenno; Tadcu a Mamgu Bancyfelin a'r teulu i gyd.






Pen-blwydd hapus i Efan yn 11 oed ar Ebrill 17eg. Ti'n fachgen arbennig a charedig sydd wrth dy fodd gyda phêl-droed a chriced ac yn brif swyddog yn dy ysgol. Ni'n browd iawn ohono ti Efan. Oddi wrth Dad, Mam, Griff a'r teulu oll xx



Penblwydd hapus yn 3 oed i Nola, merch fach Dafydd a Kelly Caerfyrddin a chwaer fawr i Tomi. Mae Nola yn wyres i Delyth a John Pwlltrap a Sandra a Simon Abergwili. Cariad mawr. XXXX




THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk




*Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin*
*Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel*

IFAN DAVIES
Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

*W. J. KENNETH DAVIES*
ei Feibion a'i Ferch



SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
*Blaenwern, Clunderwen*
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

GEIRFA

1. Mam fy ngŵr yw fy ……………………………………………….
2. Y diwrnod cyn heddiw oedd……………………………………..
3. Yr enw am fuwch fach yw ………………………………………
4. Y pwnc sy'n ymdrin â gwledydd yw …………………………..
5. Gwraig y brenin yw'r …………………………………………….
6. Y corff o bobl sy'n rhedeg gwlad yw'r ………………………..
7. Fel arfer mae nofelau'n cael eu rhannu'n ……………………
8. Prif swyddog y pwyllgor yw 'r ………………………………..
9. Pan gewch chi fenthyg arian, mae'n rhaid talu ……………….
10. Pen yr Eglwys Babyddol yw'r ………………………………….
11. Yr enw am 100 mlynedd yw ……………………………………
12. Mewn un funud mae 60………………………………………….


……..

13. Mae *Woman's Own a Practical Householder* yn ………………
14. Mae pob plisman yn aelod o'r …………………………
15. William Shakespeare yw ………………………Hamlet.
16. ……………………o ddefaid a ………………..o wenyn.
17. Mae milwyr yn perthyn i …………………a morwyr i ……………..
18. Dewi Sant yw ……………………………Cymru.
19. Mae ci'n ……………………ac mae buwch yn …………….(swn)
20. Pryd mae'r tren nesaf yn mynd?  Edrychwch ar yr …………….
21. Cyntaf, …………………..trydydd, …………………..pumed.
22. Mae hi'n gorwedd yn yr haul.  Mae hi'n ………………………..
23. Sawl ……………………sydd yn Salm 23?
24. …………………………..yw'r Ritz a ………yw'r Red Cow.

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO




DAVIES
Builders Merchants
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Arddangosfa ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar agor



Ffon
Hendygwyn: 01994 240 228
San Cler: 01994 230 239
www.daviesbm.co.uk




HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# MERCHED Y WAWR

## Cangen Hendygwyn

Cyfarfod mis Chwefror gyda Delyth Davies o Eglwyswrw yn gwneud arddangosfa o fwydydd ysgafn. Gwelwyd Delyth yn paratoi'r cynhwysion ar gyfer nifer o wahanol lenwadau sawrus. Ar ôl y paratoi dyma gyfle i fwyta, gyda phaned o de, y danteithion oedd hefyd yn cynnwys cacennau caws lemon a Baileys. Hefyd eclairs siocled oedd Delyth wedi paratoi yn gynt. Cafodd Delyth gwmni ei chwaer-yng-nghyfraith Bethan Picton-Davies (is-lywydd Cenedlaethol) i helpu gyda'r golchi llestri!



Delyth Davies a Bethan Picton Davies

## Cangen Beca

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Chwefror gan Anona Jones. Anona hefyd wnaeth estyn croeso i'n siaradwr gwadd sef Dylan Harries. Y mae Dylan wedi bod ar wyliau dros y byd, ac mae yn hoff o dynnu lluniau o'r ymweliadau ymhob man.

Hanesion gawsom am ei ddymuniad i weld eirth gwyn a brown, yn ogystal â theigrod yn eu cynefin. Aeth â ni drwy gyfrwng ffilmiau i Ganada i weld eirth brown, ac i Wlad yr Ia yr eirth gwyn. Rhaid oedd iddo aros am oriau i gael lluniau oedd wrth ei fodd. Yna ymlaen a ni i'r India i gael golwg ar y teigrod. Trist yw clywed bod newid hinsawdd, a'r hela diddwedd yn gwneud bywyd yr anifeiliaid yma yn fregus iawn.

Gwnaeth Angharad ddiolch iddo am brynhawn diddorol iawn. Gwnaethom fwynhau derbyn cip olwg ar fywyd pobol y gwledydd yn ogystal â gweld yr anifeiliaid yn ei cynefin.

Jill Beynon wnaeth ennill raffl y mis. Edrych ymlaen yn awr am fowlen iawn o gawl i ddathlu Gŵyl Ddewi.

## Cangen San Cler

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eileen. Cofiwyd yn gynnes at Heulwen yn yr ysbyty a dymunwyd yn dda i Annalyn a Rhian Williams sy'n anhwylus. Cydymdeimlwyd â Margaret Rees ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith. Llongyfarchwyd y ddau dîm a fu'n cystadlu yng nghwis y Cardi Bach, un tîm yn ennill ar llall yn drydydd. Rhoddwyd yr enillion i'r gangen.

Croesawodd Eileen y siaradwyr gwadd sef Meinir Eynon, Sian Pugh a Mari Brame. Cafwyd noson ddifyr iawn yn gwrando arnynt yn son am nofio gwyllt. Fe glywsom sut iddyn nhw fentro i ddechrau nofio yn y môr bob wythnos, yr offer maen nhw'n eu defnyddio, (yn enwedig i gynhesu ar ôl dod allan o'r môr!) a'r manteision mae'n nhw'n eu cael wrth nofio gwyllt. Fe wylion ni fideos ohonyn nhw yn ymdrochi yn y môr ger Saundersfoot a'r hwyl yn amlwg. Noson hyfryd.

Diolchwyd i Meinir, Mari a Sian ar ran y gangen gan Rhian. Rhoddwyd y wobr raffl gan Sally ac fe'i henillwyd gan Ann Morris. Mwynhawyd cymdeithasu dros luniaeth ysgafn i ddiweddu'r noson.

## Cangen Gronw

Cyfarfod Dathlu Gŵyl Dewi prynhawn Iau, Chwefror 27ain yng Nghaffi Beca.

Cyfarfu pedair ar ddeg o aelodau i ddathlu Gŵyl Dewi. Hyfryd oedd gweld Jane a Marion yn bresennol. Cafwyd pryd o fwyd blasus iawn a diochlwyd i Robert a'i staff.

Wedi gorffen delio gyda'r materion gweinyddol croesawodd Llinos Thomas ein gŵr gŵadd, Vernon Beynon neu Vernon Cross. Da oedd ei fod yn ddigon iach i fod gyda ni gan y methodd ddod llynedd oherwydd afiechydd. Soniodd am gymeriadau'r fro – Clunderwen a Llandysilio, a'r hen ffordd Gymreig o fyw. Cymeriadau fel Ifan Thomas Creseli - trefnwr angladdau, bachgen clyfar dros ben; Wil Bryn a ddysgodd Gymraeg - porter yn y stasion; Dai Dwrdi, Llanfallteg un o unarddeg o blant, yn torri beddau a torri winshis. Soniodd tipyn am Waldo a'r cyfeillgarwch arbennig a theulu Cross. Roedd y storïau yn llifo.










Diolchodd Llinos iddo am brynhawn difyr iawn ac am ein hatgoffa o'r hen ffordd Gymreig o fyw a'r cymeriadau unigryw.



Vernon Beynon yng nghwmni aelodau o Ferched y Wawr Gronw.

## Clwb Gwawr Hendygwyn

Fe ddaeth criw dda ynghyd i Ganolfan Hywel Dda nos Fercher 26ain o Chwefror i beintio llechi yng nghwmni talentog Sara Jones o Eglwyswrw.

Athrawes rhan amser yn Ysgol Casmael yw Sara, lle bu hefyd yn ddisgybl yn nyddiau Alun Ifans. Roedd ganddi ddiddordeb ym myd celf ac erbyn hyn wedi sefydlu busnes Llechi Sara Jones ac mae'n arddangos a gwerthu ei gwaith mewn digwyddiadau ac yn rhannu o'i doniau.



Aelodau'r Clwb Gwawr

Roedd Sara wedi dod ag amrywiaeth o gyfarpar i ni gael peintio llechen ein hunain, a bu'n ein tywys a'n cynghori yn fedrus i greu ein llechi unigryw. Roedd pawb yn falch iawn gyda'u gwaith ac yn edrych mlaen i'w harddangos.

Cafwyd paned, bisgedi a phice ar y maen i ddiweddu'r noson. Diolch i Delyth Roblin a Diane Jones am drefnu noson mor hwyliog.

## Y Pasg

Y dorf fu'n araf deithio
I dref Jeruwsalem,
Eu lleisiau yn atseinio
A gobaith yn eu trem ;
Y Brenin ddaeth yn ebrwydd
Mewn buddugoliaeth lawn,
A thaenwyd cangau'r palmwydd
I'w dderbyn Ef yn llawn.

Ei wrthod gan y dyrfa
Fu tynged Iesu cu,
A'i arwain i Galfaria
Dan bwysau croesbren ddu;
Ar ôl yr ing a'r gwawdio,
Bu farw'r cyfiawn ŵr,
Tarannau fu yn rhwygo
Y ddaear fawr ddi-stwr.

'Mhen tridiau, Mair a welwyd
Yn cyrchu at y bedd,
Hiraethus am anwylyd
A gofid ar ei gwedd;
Y maen oedd wedi ei dreiglo
A'r bedd, heb gorff y Crist,
A phlygu'i phen dan wylo
A wnaeth mewn gwewyr trist.

Ond Iesu mawr a safodd
Ar fore'r trydydd dydd,
A Mair ei hun a'i gwelodd
Trwy lygaid grym ei ffydd;
A dathlwn ninnau eto
Fod Iesu heddiw'n fyw,
I'n hachub a'n bendithio –
Ein ceidwad ffyddlon yw.

*Nansi Evans*





R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# Colofn Llên *gan Marian Thomas*

Doedd dim angen ysgogiad i ddarllen nofel ddiweddaraf Angharad Price, awdur y clasur cyfoes, **O! Tyn y Gorchudd,** a enillodd iddi'r Fedal Ryddiaith yn 2002 a gwobr Llyfr y flwyddyn yn 2003. Nofel hanesyddol oedd honno ar ffurf hunangofiant dychmygol hen fodryb a'r gyfrol yn gofnod o fywyd gwledig a Chymraeg Sir Feirionnydd ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Fe'i cyfieithwyd i'r Saesneg – **The Life of Rebecca Jones**. Anodd credu bod cymaint o flynyddoedd wedi mynd heibio ond cyhoeddodd sawl llyfr ers hynny, yn cynnwys y nofel **Caersaint** sy'n ddarlun o fywyd trefol Cymreig cyfoes; a **Ffarwél i Freiburg** am yrfa a gwaith cynnar T.H. Parry-Williams. Hyhi luniodd y sgript i'r ddrama mewn cymeriad ar fywyd y bardd a fu ar daith yn gynharach eleni, sef, *Congrinero* a oedd yn wirioneddol wych.

Ei nofel ddiweddaraf yw **Nelan a Bo** a nofel hanesyddol arall yw hon sy'n mynd â ni'n nôl ymhellach i ddiwedd y 18fed a dechrau'r 19eg ganrif. Mae'r ddau gymeriad yn ddeg oed ar ddechrau'r nofel a dilynir eu hynt nes cyrraedd y deunaw oed. Yn ystod y cyfnod hwnnw gwelir newidiadau mawr cymdeithasol gyda datblygiad y chwarel a dechreuadau ymneilltuaeth. Mae'r ysgrifennu'n gain, yn cyfleu hagrwch a thlodi eithriadol y cyfnod ynghyd â chyfeillgarwch y ddau gymeriad a'r iaith sy'n galed werinol ar y dechrau, yn newid i eirfa'r chwarel ac yn ddiweddarach i fod yn fwy Beiblaidd.

Mewn cyfweliad fe ddywedodd yr awdur y cymerodd 14 blynedd i'w llunio ac mai'r ysgogiad oedd gweld capel Bethel ger ei chartref ar werth a brân yn hedfan i mewn ac allan o'r ffenestri. Sylweddolodd, meddai, cymaint fu ymdrech ein cyndadau i adeiladu ein capeli a'u hanes cythryblus a bod angen i ni gofio hynny. Bydd hon yn glasur cyfoes arall – rwyf wedi'i darllen ddwywaith a'i harddull wedi fy swyno, yn enwedig wrth ei darllen ar goedd i *Lyfrau Llafar*, ynghyd â'r cymeriadu gan gynnwys Seffora, y wraig annibynnol a ystyrid yn wrach â'i meddyginiaethau amgen. Ceir sylwebaeth gan gigfran ar ddiwedd adegau penodol o fywydau Nelan a Bo a llais honno sy'n cloi'r stori. Mae'n gwrando ar: *'Anadliadau'r emynau. Yr organ fudan. Y geiriau heb leferydd... Ac ocheneidiau Duw o bryd i bryd yn disgyn o'r pulpud ar y pren di-glust.'* Ysgytwol.

Llyfr arall a'm swynodd oherwydd ei thynerwch a'i harddull synhwyrus yw nofel gyntaf Bethan Nantcyll, sef **Dau**. Hanes yr efeilliaid, Gwen a William yw hi, sy'n gofnod o fywyd cefn gwlad Cymru o gwmpas canol y ganrif ddiwethaf. Mae nifer o benodau yn y trydydd person ond o safbwynt William; penodau eraill yn llais Gwen sydd erbyn hyn mewn cartref gofal ac yn galw i gof ei hieuenctid. Mae ganddi ei chyfrinach a'i thristwch a datgelir hynny'n gynnil. Mae'n stori am gariad a thrais, am galedi bywyd amaethyddol, am gulni cymdeithas, am fywyd y capel, gan hiraethu am yr hen fywyd Cymreig. Mae'r darlunio o fyd natur yn eithriadol a cheir arwyddocâd i blannu'r *'n'ad fi'n angof ym morder yr ardd,'* lle mae *'cyfrinachau'r Eden fechan.'* Mae cymeriadau'r teulu a'r gymdogaeth yn ddarluniau byw, fel y disgrifiadau o'r cartref gofal. Mae'r berthynas rhwng y ddau efaill mor annwyl a William mor ofalgar o'i chwaer – nofel deimladwy dros ben. Profiad digon emosiynol oedd ei darllen.




## Cacen Gaws Bricyll

170g / 6 owns o fisgedi 'digestives' wedi'u malu
85g / 3 owns o fenyn wedi'i doddi
85g/ 3 owns o siwgr Demerara

Llenwi:
425g / 15 owns o fricyll
570ml / 1 pecyn jeli oren
225g / ½ pwys o gaws bwthyn
1 llwy bwdin o siwgr mân
Hufen dwbl 570ml / carton ar gyfer addurno

### DULL

Ychwanegu siwgr a bisgedi i fenyn wedi toddi.
Rhowch ar waelod tun rhydd 8-9" a'i wneud yn eithaf cadarn.
Draeniwch fricyll a gwnewch hyd at ¼ peint â dŵr.
Cynheswch hwn a'i ddefnyddio i wneud jeli.
Pan fydd yn oer, cymysgwch jeli, bricyll, caws a siwgr mân.
Pan fydd y cymysgedd hwn yn oer, chwisgiwch yr hufen a phlygu i mewn.
Arllwyswch i'r gwaelod a gadewch yn yr oergell i setio.
Addurnwch gyda ffrwythau a hufen.

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853





CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk

# Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026

Bellach, mae trefniadau'r Cyhoeddi yn mynd yn eu blaenau, gyda Chywydd Croeso Eisteddfod y Garreg Las i'w lunio gan Y Prifardd Ceri Wyn Jones, un sydd â'i wreiddiau yn ardal yr Eisteddfod, a chysylltiad arbennig â phlwyf Llantwd.

Braf yw nodi hefyd y bydd cynrychiolaeth o'r tair sir sy'n rhan o Eisteddfod y Garreg Las yn ymuno yn y ddawns flodau eleni, gyda disgyblion Bro Preseli, Bro Teifi, Hafodwenog, Bro Myrddin, Caer Elen, Eglwyswrw ac Ysgol Gynradd Aberteifi, yn perfformio.

Yn dilyn clyweliadau hynod boblogaidd ac o safon uchel iawn, mae'r Orsedd wedi penderfynu mai Mabli John fydd Cyflwynydd y Flodeuged ac Einir Dafydd fydd Cyflwynydd y Corn Hirlas. Y Macwyaid fydd Tomi Rees a Cai Jones a'r Llawforynion fydd Leah Rogers a Nia Medi Morris. Llongyfarchiadau i bawb, ac rydym ni i gyd yn edrych ymlaen at eu gweld yn ymgymryd â'u swyddogaethau yn y Cyhoeddi.

Dydd Sadwrn, 17eg Mai yw'r diwrnod mawr, a chynhelir y Cyhoeddi yn Arberth. Bydd yr orymdaith yn cychwyn am 09:45 yn Neuadd y Frenhines, gan orymdeithio drwy Spring Gardens, i lawr St James St ac i fyny'r brif stryd gan orffen ar y tir glas wrth ymyl y maes parcio, lle y cynhelir y seremoni ei hun. Bydd popeth wedi gorffen mewn da bryd i bawb allu teithio ymlaen i Landudoch ar gyfer yr Eisteddfod wedyn.

Hoffech chi ymuno yn yr orymdaith neu helpu ar y dydd i sicrhau fod popeth yn rhedeg yn hwylus? Ewch i wefan yr Eisteddfod, www.eisteddfod.cymru, a dilynwch y ddolen 'Cyhoeddi Eisteddfod 2026' ar y dudalen flaen. Mae croeso cynnes iawn i bawb fod yn rhan o'r diwrnod.

Rydym ni'n ddiolchgar iawn i rai o'n cynghorau cymuned am eu cefnogaeth gynnar i'r ymgyrch godi arian. Mae Cilgerran wedi cyfrannu £10,000, gyda Crymych £6,000, Manordeifi £500 am y flwyddyn ariannol hon, ynghyd â Clydau. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith eisoes wedi ymweld â chynghorau Tref Aberteifi a Threfdraeth a Chynghorau Cymuned Llandudoch, Nanhyfer, Boncath ac Eglwyswrw, ac yn aros i glywed eu penderfyniadau.

Rhoddir y Goron gan Wyn a Mair er cof am eu rhieni, Y Parchedig WJ Gruffydd a Mrs Gruffydd. WJ oedd y Prifardd Elerydd, yn gyn-archdderwydd, ac yn un oedd â chysylltiadau agos iawn ag ardal y Garreg Las. Rhoddir y wobr ariannol gan bapur bro Y Cardi Bach er cof am Euros Wyn Jones a Rhoswen Llewellyn.

Cyflwynir y Gadair gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a'r wobr ariannol gan Siop Awen Teifi, a noddir y ddwy seremoni gan Gymdeithas Amaethyddol Sioe Sir Benfro.
Ac yn olaf, dyma un cais cyflym i chwi fudiadau ac unigolion, cofiwch roi ystyriaeth i Gronfa Leol Eisteddfod y Garreg Las wrth drefnu digwyddiadau.


"Lluniwch gerdd a seiniwch gân
Er budd yr henfro gyfan"

**Neuadd Gymunedol Maenclochog**

Cynhelir y **77ain**

**EISTEDDFOD GADEIRIOL**

(Dan nawdd Eglwysi Tabernacl a Llandeilo)

Dydd Llun 5ed o Fai 2025

i ddechrau am 11 o`r gloch

(Ni fydd y cystadlaethau agored yn dechrau tan 12 o'r gloch
Ni fydd y cystadlaethau i rai dros 12 oed yn dechrau cyn 3 o'r gloch)

Llywydd Anrhydeddus: Y Prifardd EIRWYN GEORGE
Llywydd y Dydd : MRS MARILYN LEWIS, Treletert

BEIRNIAID
Cerdd: MEINIR JONES PARRY, BMus, LRSM, Caerfyrddin
Llefaru a Llên: Y Prifardd GWENALLT LLWYD IFAN, Talybont
Llên y plant: ANN MORRIS, Maenclochog
Arlunio/Ffotograffiaeth: ALUN IFANS, Maenclochog
Cyfeilydd: MRS HEFINA JONES ALCM, Llangynin
07891 593449
Mynediad: Oedolion - £5.00. Plant dan 16 - am ddim

YSGRIFENYDDION
Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, SA66 7XN
Ffôn: 01437 532431
Carol Nicholas, 1 Castle View, Arberth
07971 073864

BYDD LLUNIAETH AR WERTH



Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041



HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk



DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

# BLAENWAUN

Cydymdeimlwn â Rhonwen, Elgan ac Enoc Morris, Brynhyfryd ar farwolaeth tad Rhonwen sef Elgan Jones, Pencader. Rydym fel ardal yn meddwl amdanynt.

**Moriah**

Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth Gŵyl Dewi ar Fawrth yr 2il. Thema'r oedfa oedd etifeddiaeth. Soniodd am y brenin Ahab oedd am gael gwinllan Naboth oedd yn ymyl y palas a'r ffordd wnaeth Jezebel dwyllo Naboth a threfnu i'w ladd. Atgoffwyd ni o beth sydd yn mynd ymlaen yn awr mewn sawl rhan o'r byd. Pwysleisiwyd ei bod yn ddyletswydd arnon ni i godi llais dros y rhai anghenus ac amddiffyn a gwarchod ein diwylliant a gwneud y pethau bychan i'w helpu fel anogodd Dewi Sant i ni wneud.

Trefn yr oedfaon:
Mawrth 16eg: Cymun - Nigel Davies - 2 o'r gloch
Ebrill 6ed. Cymun - Parchedig Gareth Ioan - 1-30
Ebrill 20fed. Oedfa Undebol Pasg - 10-30

Mae'r gwaith atgyweirio'r capel yn mynd yn ei flaen. Diolch i'r gweithwyr a diolch hefyd i Iori Saer sydd wedi manteisio ar y sgaffaldau ac wedi gwneud tipyn o waith i helpu'r atgyweirio. Gobeithio na ddaw storm arall!

**Diolch**

Dymuna teulu'r diweddar Michael Evans, Maes yr Haf, ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, cymorth a charedigrwydd a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth hynod annisgwyl. Hoffent hefyd ddiolch i bawb am eu haelioni er cof am Michael. Casglwyd swm o £1,200 tuag at Ymatebydd Cyntaf Crymych.

# RHYDYCEISIAID

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Mawrth 2il. Pleser oedd cael cwmni Eifiona Lewis yn yr oedfa.

Cofiwn yn dyner am yr aelodau sydd yn anhwylus yn eu cartrefi. Gwelir eu heisiau yn fawr iawn.

# GELLYWEN

**Ainon**

Ar Sul, Mawrth 2il cawsom oedfa ddiddorol o dan ofal Sion Page pan fu'n siarad am rai o ddelweddau Dewi Sant sydd hyd y dydd heddiw yn dylanwadu ar ein ffordd o fyw.

Yna fel cydnabyddiaeth i Brian a Peter Crowdie am yr amser a'r ymroddiad maent wedi rhoi at yr achos, fe'i cyflwynwyd â rhodd o oriawr yr un.

Dechreuodd Brian wrth yr offeryn yn 1964 pan oedd yn rhannu'r gwaith gyda Sissie Swyddfa'r Post, May Cilsant a Mair Ysgarfryn, ond erbyn heddiw dim ond Brian a Catrin sydd yn medru'r gwaith. Ar ộl hyn bu Brian yn gweithio yn Aberystwyth, Llanfar ym Muallt a'r Trallwng ond pan ddaeth yn ộl i Hwlffordd yn 1983 dechreuodd chwarae eto gyda dim ond Sissie erbyn hyn. Diolch yn fawr iddo am yr holl deithio mae wedi gwneud dros y blynyddoedd hyn.

Mae Peter wedi bod yn ysgrifennydd ers 1978 a bu'n cydweithio yn agos iawn gyda'r Parchedigion Eirian Wyn, 1979-1980, W.J.Gruffydd 1984- 1988. Dafydd Edwards, 1989-2001 a Llinos Edwards 2000-2011. Ar ộl hyn bu'r gwaith tipyn caletach pan oedd angen chwilio am bregethwyr ar y Suliau. Hefyd bu'n gorchwylio'r adeg pan werthwyd y Villa am swm sylweddol, sydd wedi bod yn fộdd i ni gynnal yr achos cyhyd, a chael cegin a thŷ bâch yn y festri, a llwybrau newydd i fewn drwy'r fynwent.

Erbyn hyn mae Peter wedi hanner ymddeol ac yn rhannu'r gwaith gyda Patsy sydd yn cymeryd at y baich yn raddol ac mae'n sicr fod y gwaith yn cael ei drosglwyddo i bâr o ddwylo diogel.



Yn y llun gwelir Margaret Rees, trysorydd; Peter Crowdie; Brian Crowdie a Patsy Lewis.

**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
*Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.*
*Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.*
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

# MEIDRIM

**Henoed**




Buom yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Neuadd Ieuenctid Meidrim. Daeth 24 ohonom at ein gilydd i fwynhau cawl bendigedig a baratowyd gan Christine James. Nid yn unig y cawl oedd yn flasus ond hefyd y danteithion arall pwrpasol ar gyfer dydd ein nawddsant.
Offrymwyd gras gan Meirion Morris a diolchodd hefyd i Christine am y wledd.
Raffl - Hilda Mason, Glyn Harbour, Sara Ellis a Meinir Thomas.



Yr aelodau yn dathlu Gŵyl Ddewi

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Ebrill 1af pan fydd Dr Glan Rees yn siarad am ei waith.

Wrth y te - Glenda Badhams, Eirwen Davies, Emrys Morgan a Hiefena James.

# LLANBOIDY

**Gwellhad buan** i Susan Phillips, Waunfawr sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Glangwili.

**Chwaeroliaeth**
Ar Chwefror 15fed, cyfarfu'r aelodau yn y festri o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Wedi iddi groesawu pawb, bu'n cydymdeimlo â Susan oedd wedi colli cyfnither yn ddiweddar, bu hefyd yn llongyfarch Merle ar ennill gwobr fawr y Cardi Bach. Croesawodd y gwestai sef Michael Thomas o Hwlffordd sydd wedi ymddiddori yn hanes Abaty Hen-dy-Gwyn. Bu'n cyflwyno'r hanes wedi gwisgo fel yr Abad olaf yn yr abaty. Diolchodd Wenfys iddo am brynhawn addysgiadol ac roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Mair Morgan a Rhiannon Davies.



Yr aelodau yng nghwmni Meic Thomas

**Sefydliad y Merched**
Daeth yr aelodau ynghyd yn y Clwb Chwaraeon ar Chwefror 13eg o dan lywyddiaeth Denise Harris. Y gwestai oedd Janet Surman o Burry Port a chafwyd noson llawn hwyl yn dysgu sut i ddawnso llinell o dan ei hyfforddiant. Diolchodd Denise iddi ac roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Heulwen a Joyce. Enillydd y gystadleuaeth am weithio blodyn oedd Susan Evans.

# RHYDWILYM

Diolch i'r Parch. Wyn Morris am wasanaeth Cymun bendithiol iawn fore Sul, Mawrth 9fed.

Mawrth 23ain. - 10.30 - Wyn Thomas
Ebrill
6ed - 2.00. Parch. Ken Thomas.
20fed - 2.00. Parch. Judith Morris (Cymun y Pasg)
Mai 4ydd - 10.30. Cymun. Parch. Catrin Thomas

Mae Dennis Lewis wedi cael triniaeth yn Ysbyty Treforys, ac yn gwella ar yr aelwyd ym Maenclochog.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

Hefyd mae Emrys Llewelyn yn ôl yn Waungron ar ôl cwympo, torri asgwrn a chael triniaeth yn ysbyty Llwynhelyg. Pob bendith a gwellhad i'r ddau, ac i bawb sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

# LLANGYNIN

**Pen blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r canlynol sy'n dathlu eu pen blwyddi arbennig ym mis Mawrth...

Nadia Almond, Y Ffawydd, a oedd yn dathlu ei phen blwydd arbennig yn 50 oed ar Fawrth 5ed....

Roy Reynolds, Tymore, sydd yn 91 oed ar Fawrth 11eg...

Gareth Thomas, Pantglas, sy'n 85 oed ar Fawrth 18fed....

a Granville Davies, Angorfa, a fydd yn 93 oed ar Fawrth 23ain.



Pen-blwydd Hapus iawn i Maria Eleri Lloyd, Penlan House, a fydd yn un oed ar yr 21ain o Fawrth. Llawer o gariad oddi wrth Dad, Mam, Taid a Mam-gu Siân, Tad-cu a Mam-gu Llwynpiod, Nain a Nanna.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**



Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Chwefror o Gymdeithas Gymraeg Llangynin oedd y darlledwr Richard Rees.

Roedd hi'n bleser gwrando ar Richard, gyda chymorth ffotograffau ac ambell fideo, yn rhoi darlun hoffus o'i blentyndod yn Llanelli a phrofiadau ei yrfa ym myd darlledu, o'i flynyddoedd cynnar ar radio ysbyty Glangwili, trwy flynyddoedd arloesol eiconig rhaglen Sosban Radio Cymru, i'w waith fel cyhoeddwr parhad a chyflwynydd teledu.

Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd, Elfed Lewis, cyn i bob un fwynhau paned a sgwrs i gloi'r noson.

**Cawl a Chân yn y Bryn**

Nos Iau, Mawrth 6ed, cynhaliwyd noson o adloniant Cymreig i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Bryn yng nghwmni Cantorion Corran, Talacharn, dan eu harweinydd Heather Jenkins.

Wedi gwledda ar y cawl, ynghyd â phice ar y maen a phaned o de neu goffi i ddilyn, mwynhaodd y gynulleidfa wledd o ganu gan Gantorion Corran.. Diolch o galon i Colin Harries, Hendygwyn, am ddarparu'r cig ar gyfer y cawl ac i aelodau Pwyllgor Neuadd y Bryn am eu gwaith dyfal yn paratoi'r cawl a'r pice ar y maen ac am gyfrannu'r gwobrau raffl ar gyfer y noson. Gwledd o fwyd, gwledd o gân a chwmni cynnes!

**Clwb 60**

Cyfarfu'r Clwb 60 yn Neuadd Capel y Bryn ar y 13eg o Chwefror. Er yn llai mewn rhif y tro hwn oherwydd salwch a'r tywydd eithriadol o oer, treuliwyd prynhawn hyfryd ac hynod ddiddorol.

Y tro hwn y Cadeirydd Les Murphy rannodd ei ddiddordeb a'i arbenigedd mewn ffyn. Roedd wedi dod dod ag amrywiaeth o esiamplau ac roedd stori ynghlwm â phob un. Dangosodd sut oedd yn mynd ati i lunio'r gwahanol ddolenni gyda phob enghraifft yn unigryw a thrawiadol.

Diolchwyd i Les am ei gyflwyniad ac am ein diddori am y prynhawn. Cafwyd paned a bisgedi i ddilyn wedi ei baratoi gan Wenfys a Susan ac enillwyd y raffl gan Elgar.










# PWLL TRAP

Cydymdeimlwn â Sue Reynolds a'r teulu ar farwolaeth ei thad, Gordon Jones o Lanfallteg.

Dymunwn yn dda i Gareth Davies, Y Wenllys sydd wedi treulio rhai wythnosau yn yr ysbyty.

**Bethlehem Newydd**

Llongyfarchiadau i Siriol Robinson o Gaeredin, gynt o Garnwen, Llangynin ar dderbyn gradd Meistr gyda rhagoriaeth, mewn Bydwreigiaeth. Pob hwyl iddi yn ei swydd newydd fel bydwraig yn ardal Kirkaldy yn Fife.

Mae Geraint Phillips, Myddfai, wedi derbyn llaw-driniaeth a da yw deall ei fod yn gwella'n dda.

Cafwyd oedfa gan yr aelodau ar Chwefror 23ain. Llythyr Iago oedd y testun a diddorol iawn oedd clywed am safbwynt Iago – llawer iawn o'i argymhellion yn berthnasol iawn i ni heddiw. Diolch i Rhodri am y myfyrdod diddorol a pherthnasol. Dai Rees oedd yn cyfeilio a roedd cyfle i gymdeithasu dros baned wedi'r oedfa.

Dathlwyd Gŵyl Dewi yn yr oedfa ar Fawrth 2il. Y cenedlaetholwr Emrys ap Iawn oedd testun yr oedfa a chyflwynwyd ei hanes gan yr aelodau. Cafwyd myfyrdod diddorol gan Y Parch Rhodri Glyn Thomas a gweinyddwyd y Cymun ganddo hefyd. Dai Rees oedd yn cyfeilio.

Cynhaliwyd noson gawl ym Methlehem Newydd ar Fawrth 5ed. Cafwyd noson hwylus a gwledd i bawb yn gawl a danteithion ac yr adloniant gan Gôr Bois y Felin. Noson hwylus iawn. Diolch i bawb a fu'n trefnu ac yn paratoi bwyd ac yn enwedig i Bois y Felin. Fe fwynhaodd pawb eu perfformiad.



Côr Bois y Felin yn diddanu'r gynulleidfa

# SAN CLER

Trist oedd clywed am farwolaeth Pam Steel (Mrs. Skip), Heol Salem. Cydymdeimlwn yn fawr â'i phriod, Ray, y meibion Christopher a David, a'r teulu oll ar eu colled.

**Penblwydd arbennig**

Dymuna Lloyd Davies, Ddol Las, Rhiw'r Orsaf, San Cler (Manor) ddiolch yn fawr iawn i bawb am y dymuniadau penblwydd drwy alwadau ffôn, cardiau ac anrhegion ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed ym mis Rhagfyr. Yn lle anrhegion bu Lloyd yn casglu tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a chodi £3000 i'r elusen.



Yn y llun mae Lloyd gyda'i ferch, Carys, yn cyflwyno siec i Ambiwlans Awyr Cymru yn Dafen, Llanelli i Nina Rice, Pennaeth codi arian a phartneriaeth.

**Clwb Ffermwyr Ifanc**



Llongyfarchiadau i Dîm Hŷn CFfI San Cler ar gipio y safle cyntaf yn y Noson Bowlio Deg wythnos diwethaf yn Xcel Bowl yng Nghaerfyrddin. Yn y tîm mae Aled ac Iwan Owens, Josh Hancock ac Anna Phillips.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

### Dathlu Dydd Gŵyl Dewi



Dyma lun o Thom Davies o Lanybri, yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae Thom yn fab i Rhodri a Hannah, yn frawd mawr i Tobi ac yn ŵyr i Lyn a Bethan, Derlwyn Taf, San Clêr.

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Wyn Morris am ei wasanaeth yn ddiweddar, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-

**Ebrill**

6ed: Ken Thomas - Cymun am 10.30
20fed: Judith Morris - Cymun Pasg am 10.30

**Mai**

4ydd: Catrin Thomas - Cymun am 2
18fed: Natalie Morgan - Cwrdd am 2

**Brecwast Gŵyl Ddewi**

Cynhaliwyd Brecwast Gŵyl Ddewi dan nawdd Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca, Efailwen ar fore Sul, Chwefror 23ain. Roedd hi'n braf gweld y lle'n llawn a bu pawb yn mwynhau brecwast bendigedig cyn gwrando ar araith ddiddorol y Prifardd Dylan Iorwerth. Ceir adroddiad llawn a llunie o'r ar glawr y rhifyn hwn.

**Ysbyty**

Dymunwn wellhad buan i Margaret Williams, Cilowen sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Hefyd i Nigel Vaughan, sydd wedi derbyn triniaeth ar ei lygad yn ddiweddar.



Geraint a Beti James, Coedllys, Login yn trosglwyddo y rhoddion ariannol a gawsant ar eu penblwyddi, i Ganolfan Therapi M.S. yn Aberteifi. Derbyniwyd cyfanswm o £360. Diolch i bawb.

### Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Daeth dros pum deg o'r ardal i ginio blynyddol y ganolfan yng Nghaffi Beca ar nos Wener Chwefror 28ain. Cafwyd pryd o fwyd arbennig o flasus ac ar ôl llanw ein boliau cafwyd amser i gymdeithasu. Noson yn llawn hwyl a sbri.

Trefnir y cyfarfod gwaith nesaf ar nos Lun, 10fed Mawrth am 7.30.

Byddwn yn trefnu Noson Cawl a Chân ar nos Iau, 27ain Mawrth am 7 o'r gloch. Gwneir y trefniadau terfynol yn ein cyfarfod ar 10fed.

### Cylch Meithrin Ffynnonwen



Dathlu Gŵyl Dewi

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514



Dathlu Diwrnod y Llyfr

## Clwb Hwyl Cylch Meithrin Ffynnonwen

Dydd Mawrth i ddydd Gwener yn ystod gwyliau'r Pasg

i blant 18 mis - 12 oed
8.15yb - 4.30yp

£40 yn cynnwys snac a cinio

Cynnig gofal plant 3-4 oed

I archebu lle, cysylltwch a 07796 413308

# BANCYFELIN



Diolch yn fawr iawn i Gyngor Ysgol Bancyfelin am gefnogi Apêl Capeli Cana a Bancyfelin drwy gasglu hen sbectolau i Vision Aid Overseas. Dyma aelodau o'r Cyngor yn cyflwyno'r sbectolau i'r Parchg Beti Wyn.

**Cinio Gŵyl Dewi yr Ofalaeth**
Ymunodd aelodau Cana a Bancyfelin yng Nghinio Gŵyl Dewi yr Ofalaeth yng Nghlwb y Quins, Caerfyrddin. Daeth dros 70 o aelodau ynghyd a mwynhawyd bwyd blasus a chwmni da. Cyflwynodd ein gweindiog Y Parchg Beti Wyn James y siaradwr gwadd sef Heledd Cynwal a chawsom ganddi sgwrs ddifyr a hwyliog. Prynhawn a fydd yn aros yn y cof am amser hir. Diolch i bawb a ddaeth.





DAVID HARRIES & Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Celia Vlismas
Optegydd

Castell Newydd Emlyn
01239 711888
♦
Arberth
01834 861373



www,vlismas-opticians.co.uk

Rydym yn croesawu cleifion newydd - boed preifat neu o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Edrychwn ymlaen i'ch gweld

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb

- Gwasanaeth plymio llawn
- Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
- Gwasanaeth teilio llawn
- Dyfynbris am ddim
- 25 mlynedd o brofiad

07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

### Cinio Gŵyl Dewi Cana a Bancyfelin



Cafwyd prynhawn hwylus iawn yn y festiri ar 23ain o Chwefror yn dathlu Gŵyl Dewi. Roedd y cawl a baratowyd gan Sheila yn eithriadol a flasus – diolch iddi am baratoi ar ein cyfer eleni eto.  Cafwyd cacennau hyfryd gan y gwragedd hefyd, a phawb mewn hwyliau da wrth i Beti Wyn dywys pawb drwy gwis ac epilog. Diolch am bob ymdrech i drefnu prynhawn llwyddiannus iawn.

### Dydd Gweddi'r Byd



Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd Cylch Bancyfelin yng Ngibeon eleni, a hynny ar nos Wener, Mawrth 7fed. Chwiorydd Ynysoedd Cook oedd wedi'r paratoi oedfa eleni ac fe addurnwyd y capel yn bwrpasol ar thema y môr. "Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol" oedd testun yr oedfa wedi ei pharatoi gan wragedd ardal hardd o'r byd a roedd y gwasanaeth ei hun yn hardd. Cynhelir yr oedfa arbennig hon ar draws y byd a braint yw cael bod yn rhan o'r don o oedfaon gweddi sy'n ymestyn o doriad gwawr tan fachlud haul ar y diwrnod hwn. Diolch i aelodau Bancyfelin, Cana, Ffynnonbedr a Gibeon a fu'n cymryd rhan. Hilary oedd yn cyfeilio. Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned. Diolch i'r Parch Beti-Wyn James am dynnu'r lluniau.



Pawb fu'n bresennol yn yr oedfa



Yn dilyn apêl mis Ionawr/Chwefror gan eglwysi Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, cyflwynwyd 375 pâr o hen sbectolau i Vision Aid Overseas trwy law Optegydd Celtic, Caerfyrddin. Ymdrech wych, diolch i bawb a gefnogodd gan gynnwys Cyngor Ysgol Bancyfelin a ffrindiau'r ardal!

### Gibeon



Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd yng Ngibeon eleni. Diolch i'r rhai a fu'n cymryd rhan, yn paratoi ac yn gweini lluniaeth.









# CFfI PENYBONT

Daeth y clwb i'r brig yng nghystadleuaeth y Panto, CFfI Sir Gâr eleni, a chipio'r wobr ar gyfer y llwyfannu gorau.

Llongyfarchiadau i holl gast a hyfforddwyr Trwbl yn y Jwngl, ac yn arbennig i Daniel O'Callaghan am gipio gwobr yr actor gorau o dan 28 oed.







Daniel oedd Mrs Neli-Ffant.

**Aelod Hŷn y Flwyddyn CFFI Sir Gâr**



Llongyfarchiadau hefyd i Ysgrifennydd y clwb, Hannah Richards am gael ei dewis yn Aelod Hŷn y Flwyddyn CFfI Sir Gâr eleni. Pob hwyl i Hannah yn ystod y flwyddyn.

Llongyfarchiadau i'r holl aelodau a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth y bowlio deg, ac yn arbennig i'r tîm hŷn, sef Dafydd, Steffan, Elin ac Elan am ddod yn drydydd.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

"Mis Mawrth unwaith eto, a'r gwanwyn wedi dod Dydd Gwyl Dewi ydyw hi"

Dyna byddwn yn canu yr adeg yma yn flynyddol. Ac fe ddaeth mis Mawrth a Dydd Gŵyl Dewi unwaith eto ac arwyddion y gwanwyn gyda nhw.

Cynhaliwyd oedfa Gŵyl Ddewi a oedd dan ofal y plant a'r bobl ifanc. Edrychwyd ar fywydau Dewi Sant a'i ffrind Teilo Sant a chawsom wybod bod y ddau wedi astudio yn Hendygwyn o dan law eu hathro Peulin. Yn ogystal dathlwyd llwyddiant Tîm Pêl-droed Cenedlaethol Merched Cymru sydd wedi cyrraedd yr Ewros am y tro cyntaf erioed.











Oedfa Gŵyl Ddewi



Grŵp Trafod y Beibl

**Cinio Gŵyl Ddewi**



Gwawr Lewis, Ffostrasol, oedd y wraig wadd yng nghinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Tabernacl, Hendy-gwyn. Cafwyd prynhawn hyfryd yn ei chwmni ac anerchiad diddorol iawn ganddi am ei gwaith fel cynhyrchydd y rhaglen 'Ffermio' ar S4C.

Cyn yr anerchiad cafwyd cinio wirioneddol arbennig gan staff yr 'Old Board School House' yn Sancler.



Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Tabernacl

Mae'r 'Clwb Hwyl' yn dal i gwrdd ar ddydd Gwener am 3.30 adeg ysgol ac mae yn parhau yn llwyddiant mawr.

Mae Grŵp trafod y Beibl yn cwrdd bob pythefnos ac rydym newydd ddechrau edrych ar 'Lyfr y Pregethwr'.



**Penblwydd hapus yn 40 oed**

Fe wnaeth un o'r aelodau ddathlu penblwydd yn 40 yn ddiweddar. Pob dymuniad da i Christopher Davies sydd yn byw yn yr Alban.



**Priodas Ddiemwnt**

Llongyfarchiadau mawr i Rosina a Norman Thomas a fu'n dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da wrth bawb yn y Tabernacl.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

Dyma drefn oedfaon mis Ebrill a chroeso cynnes i bawb:

Ebrill
6ed: 10.00 - Oedfa Gymun
13eg: 11.15 - Oedfa
18fed: 10.30 - Oedfa Gwener y Groglith (a phaned i ddilyn)
20fed: 10.00 - Oedfa Gymun Sul y Pasg
27ain: 11.15 - Oedfa

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Tony a Margarette Hughes, Maes y ffynnon, Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar golli ŵyr, sef Ifan mewn amgylchiadau trasig yn ddiweddar. Roedd Ifan yn fab i Dafydd a Fiona ac yn frawd i Tomos a Mali. Rydym yn meddwl amdanynt yn eu hiraeth a'u galar.

Hefyd, cydymdeimlwn â theulu y diweddar Haydn Lewis, Tyddyn Haul a fu farw'n sydyn ar Chwefror 24ain yn 98 oed.

Penblwydd

Dymuniadau gorau i Neil Jenkins, Cysgod y dderwen sy'n dathlu ei benblwydd yn 60 oed ar Ebrill 11eg.

## Cylch Meithrin Hywel Dda

Diwrnod y Llyfr 2025



Bu'r plant yn gwisgo i fyny ac aethant am dro i'r siop lyfrau yn dre i gael amser stori. Diolch yn fawr i 'Oasis/Dave's' am y croeso cynnes ac am lyfrau i'r plant.

**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**



Roedd y plant wedi mwynhau dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy wisgo i fyny, dawnsio gwerin a gwneud pice ar y maen blasus tu hwnt!

Dathlu Dydd Miwsig Cymru



Diolch yn fawr iawn i blant Ysgol Llys Hywel am ddod draw i'r Cylch a chwarae eu hofferynnau i'r plant a chanu gyda nhw.

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Siop Siân
01239 831230
Llyfrau Cymraeg, Cardiau Cyfarch, Anrhegion Cymraeg a mwy yn gwasanaethu Sir Benfro
London House, Crymych
SA41 3QE

Bwyd Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Ymweld â’r bwyty Tsieineaidd



Bu’r plant ar ymweliad cyffrous iawn i’r bwyty Tsieineaidd yn Hendygwyn i ddathlu y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Diolch o galon i Crystal a’r teulu am y croeso cynnes, am eu caredigrwydd ac haelioni. Cafodd y plant amser gwych!

### Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Fel arfer cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Croesawyd pawb gan y cadeirydd Mr Claude James. Yr oedd yn braf cael cyfarfod i ddathlu a chofio bywyd ein nawddsant, Dewi. I ddechrau eisteddodd pawb i lawr i fwynhau cawl bendigedig wedi ei baratoi gan staff y Clwb Rygbi. Wedi bawb orffen bowlen neu ddwy o’r cawl, diolchwyd am y wledd gan y cadeirydd.

Yn dilyn, croesawodd a chyflwynodd y siaradwraig wadd, sef Elsa Davies Williams. Mae Elsa yn rhannu ei hamser rhwng ei chartref ym Mancyfelin a’r Ysgwrn, Trawsfynydd - cartref bardd enwog y Gadair Ddu, sef Hedd Wyn. Mae’r Ysgwrn a’r tir o gwmpas, ers 2012, yn eiddo i Barc Cenedlaethol Eryri sy’n diogelu’r safle i’r cenhedloedd a ddaw.

Cawsom yr hanes gan Elsa fel iddi gwrdd â Gerald Williams a fu’n byw a gwarchod yr Ysgwrn hyd ei farwolaeth. Roedd Elsa heb fod yn yr Ysgwrn erioed a phenderfynodd fynd yno am dro. Wedi cyrraedd yr Ysgwrn cafodd sgwrs a chroeso yn y tŷ gan Gerald Williams. Aeth yn ôl yno ddwywaith neu dair ac yn ei geiriau ei hunan, syrthiasant mewn cariad a phriodi ac mae’r gweddill yn hanes!

Bu’n helpu Gerald yn cyfarch a siarad a thwristiad a’i tywys o amgylch y tŷ ac mae’n dal i wneud hynny yn achlysurol. Bu farw Gerald yn 2021 a chafodd Elsa lythyr personol o gydymdeimlad wrth y Tywysog Charles (ar y pryd) a fu’n ymweld â’r Ysgwrn. Roedd ganddi lun o’r ymweliad hwnnw yn ogystal â’r llythyr oedd wedi ei fframio. Bu hefyd yn dangos amryw o luniau eraill o deulu Hedd Wyn.

Noson hynod o ddifyr a diolchwyd i Elsa ar ran pawb gan John Arfon.



Elsa Davies Williams yng nghwmni Dewi James, Trysorydd; Claude James, Cadeirydd a Verian Williams, Ysgrifennydd.

## LLANGLYDWEN

**Penblwydd arbennig**

Penblwydd hapus i Kaye Phillips, gynt o Llanglydwen a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 70 oed ar Ebrill y 7fed. Dymuniadau gorau oddi wrth Dianne, Sandra, Lynnette, Barry, Ryan a’r teulu oll.


## CLUNDERWEN

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda theulu Richard White, Fferm Pengwern, Clunderwen. Gŵr cariadus Christine, tad annwyl Richard, tad yng-nghyfraith parchus Dawn a datcu balch a chariadus Mathew. Bu farw yn sydyn ar ddydd Mawrth, Ionawr 21ain yn 73 oed.

...hefyd cydymdeimlwn gyda John, Jackie, Sara a Ffion Gwyther a’r teulu oll, ar farwolaeth mam John, sef Dilys Gwyther a hunodd yn dawel ar 19eg o Chwefror. Meddwl amdanoch.






**Llongyfarchiadau**




Llongyfarchiadau enfawr i Aled Hughes am gwblhau Hyrox unwaith eto, er gwaetha'r anafiadau dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n ysbrydoliaeth. Da iawn wir.

**Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen**

Llongyfarchiadau enfawr i CFfI Clunderwen ar ddod yn 2il yn yr Ŵyl Pantomeim 2025 yn ddiweddar. Cafodd Scott Robinson y wobr am berfformiad unigol gorau a Sion Blethyn yn derbyn gwobr perfformiad iau mwyaf addawol.



Scott Robinson



Sion Blethyn



Cast y pantomeim

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau I Becs Ashe a Paul John Best ar ei priodas ar 25ain o Chwefror. Pob dymuniad da iddynt.

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**



Ar y 3ydd o Fawrth y siaradwyr gwadd oedd Jane a Michaelay Bayless a fu'n sôn am Cimonos. Roedd ganddynt gasglad hyfryd oedd wedi dod o Siapan. Diolch iddynt am noson ddiddorol iawn. Os hoffech ymuno a'r sefydliad, cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Clunderwen ar nos Lun cyntaf y mis am 7.30yh.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn: 01437 563300

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol
Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

# LLANDYSILIO

**Penblwyddi**



Penblwydd Hapus iawn i Richard Davies (Ladds) yn 60 oed. Gwelir ef yn y llun gyda'i frawd Andrew.




Penblwydd hapus i Raymond Morris, Swn y Gwynt, Llandysilio ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Chwefror 15fed.

Yn lle anrhegion ar ei benblwydd, derbyniodd gyfraniadau tuag at Uned Gofal Dwys, Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd, i ddiolch iddynt am y gofal dderbyniodd rai blynyddoedd yn ôl. Derbyniwyd swm anrhydeddus o £1050. Diolch i bawb a gyfrannodd. (Llun isod)






...hefyd penblwydd hapus i Myfanwy Morgan, gynt o Llandysilio, ar ddathlu ei phenblwydd yn 98 oed, ar Chwefror 14eg.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â theulu Ronnie Jenkins o Brynmarlais, Redstone Road, Arberth, gynt o Portisbach, Llandysilio. Bu farw'n dawel ar Chwefror 13eg yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd. Gŵr cariadus Eirlys, tad annwyl Ruth, Rodney a'r diweddar Glynda, tad-yng-nghyfraith parchus a thadcu cariadus.

....hefyd yn drist iawn i glywed am farwolaeth Ann Thomas, ar Chwefror 28ain. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i gŵr Gethin a'i merch Laura a'r teulu oll.

....hefyd cydymdeimlwn gyda Bethan, Hugh, William a Lleucu Lloyd, a'r teulu, ar farwolaeth tad Bethan yn ddiweddar.
Meddwl amdanoch i gyd.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Angharad Dugmore ar dderbyn Gradd Dosbarth Cyntaf mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, o Brifysgol Abertawe. Mae'n edrych ymlaen i ddechrau ei swydd fel nyrs iechyd meddwl cofrestredig. Pob lwc iddi.

## BLAENCONIN

Yn ystod y misoedd diwethaf yr ydym wedi bod yn ffodus i gael gwasanaeth Mrs Shan Jones a Mrs Orinda Roberts. Diolch iddynt.

Fe fydd oedfa yn Blaenconin ar Mawrth 23ain pan fydd Mrs Shan Jones gyda ni unwaith eto ac hefyd Mrs Orinda Roberts ar y 30ain.
Dydd Gwener y Groglith fe fydd cwrdd Undebol pan ddisgwylir Mr Huw Roberts i wasanaethu. Croeso i bawb.
Rydym yn falch fod y gwaith wedi cwblhau ar do'r festri.

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Neuadd Llandysilio**

## Bore Coffi

**i ddathlu 80 penblwydd Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE Day)**

Bore Llun 5ed o Fai (Gŵyl y Banc)
10.00yb tan 12.00

Mynediad am ddim
Raffl

**Rygbi**



Ar ddydd Sul diweddar, cafodd pawb hwyl wrth chwarae rygbi yng Nheredigion ar gyfer EPP. (Emerging Player Programme). Roedd yn ddiwrnod i'w gofio gyda hanes yn cael ei greu ar y cae. Am y tro cyntaf, cafodd y merched gyfle i gymryd rhan mewn gêm rygbi sylweddol. Ymysg y chwaraewyr oedd Mili Hammersley o Llandysilio, a oedd yn falch iawn o'i chyfle i chwarae a edrych ymlaen at y gemau sydd i ddod.
Y sgôr derfynol oedd Ceredigion 20 - 57 i Sir Benfro.
Da iawn ferched.

# TRELECH

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Menna Thomas Jones, Brynsiriol sydd yn ddathlu penblwydd arbennig ar ddechrau mis Ebrill.

Hefyd i David Harries, Hendygwyn (Blaendewi Fawr gynt) sydd hefyd yn dathlu yr un penblwydd arbennig yn ystod mis Mawrth.
Mae Mrs Ina Barnett yn yr ysbyty ar hyn o bryd wedi iddi syrthio ac anafu ei garddwn a'i choes. Gwellhad buan iddi.

Dal yn yr ysbyty yng Nghaerfyrddin mae Brian James, Esgairlydan. Pob dymuniad da iddo yntau hefyd.

**Capel y Graig**
Bu'r oedfa gyntaf a gynhaliwyd yn y flwyddyn newydd o dan ofal Alun Davies, Waunolau Fawr gyda Eleri Rees yn cyfeilio. Diolch i'r ddau am oedfa fendithiol iawn.

Yn llenwi'r pulpud dros yr wythnosau diwethaf oedd: Mr Dafydd Evans; Parchedigion John Gwilym Jones, Gareth Ioan a Llunos Gordon. Diolch iddynt am oedfaon hyfryd a bendithiol ac i'r cyfeilyddion Eleri Rees ac Eirlys Phillips.





**Oedfa fedydd:** Ar y 23ain o Chwefror, pleser o'r mwyaf oedd gweld tri o blant bach yn cael eu bedyddio gan Jean Lewis, sef Eiri Megan a Myrddin James, plant bach Owain a Miriam Thomas, Henfald a Lydia Mai, merch fach Bedwyn a Buddug Rees, Bryn Siriol, a chwaer fach Anna a Gwen. Y tri yma yn wyrion i Terry a Meinir James, Fronglyd, Eiri a Myrddin yn wyrion hefyd i Emlyn a Gwenda Thomas, Ynys Môn, a Lydia yn wyres hefyd i Meurig a Margaret Rees, Hermon. Eirlys Phillips oedd yn cyfeilio.

Cydymdeimlwyd yn ddiweddar gyda David a Caroline Harries a'r teulu ar golli brawd, Elwyn Skeel Harries, Llandysilio. a hefyd gyda Jean ac Ambrose Lewis, a Terry a Meinir James a'u teuluoedd ar golli brawd, sef William Charles James, Llanwenog.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i dri o aelodau sydd yn yr ysbyty sef Mrs Eileen Thomas, Mr Brian James, a Mrs Ina Barnett.

HUW JONES
ADEILADWR
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329



DERI PAGE
CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES



Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

# EFAILWEN

**Bore Coffi**

Ar y 15fed o Chwefror, cynhaliwyd bore coffi i godi arian er lles Isaac Davies, Fferm Brynhyfryd. Braf cael cyhoeddi ein bod wedi codi £4,350 hyd yn hyn! Swm anferthol ac anrhydeddus! Hoffem ddiolch o galon i'r gymuned agos ac ehangach am eu holl gyfraniadau ag haelioni er mwyn gwneud y bore yn un llwyddiannus. Diolch o galon i bawb.



Rhai o'r gymuned a ddaeth i gefnogi




Cystadleuaeth dyfalu pwyso'r gacen.

Gwnaethpwyd y gacen gan Rhian Williams

**Hoelion wyth Beca – Chwefror 2025**

Yn absenoldeb ein Cadeirydd, croesawyd yr aelodau gan Eurfyl a chyflwynodd ein siaradwr gwadd, sef Owen Powell, Pant yr Ugen, Efailwen. Ganwyd Owen yng Nghaergrawnt yn 1967 pan oedd ei dad yn fyfyriwr yng Ngholeg Sant Ioan. Symudodd y teulu i ardal gogledd orllewin Manceinion a buont yn byw yno tan bod Owen tua chwech oed cyn symud i ardal Yr Eglwys Newydd, Caerdydd lle y mynychodd Owen ysgol gynradd Saesneg ei hiaith.

Treuliodd ei dad gryn dipyn o amser yn gweithio dramor yn y cyfnod hwn a daeth i werthfawrogi pwysigrwydd yr iaith Gymraeg. Bu hyn yn ddylanwad fawr a arweiniodd at benderfyniad ei rieni i roi addysg Gymraeg i Owen a'i frawd a'i symud i Ysgol Bryntaf yn Llandaf - yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf a sefydlwyd yng Nghaerdydd ac yna ymlaen i fod yn un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Uwchradd Gyfun Gymraeg Glantaf. Cyfaddefodd nad oedd yn academaidd a'i fod bron cael ei ddiarddel o'r ysgol ar sawl achlysur. Ond yno cafodd y cyfleoedd i berfformio ac ennyn ei ddiddordeb yn ei hoff beth, sef cerddoriaeth ac roedd yn chwarae gitâr ar bob cyfle.

Bu'n gweithio mewn sawl swydd ar ôl gadael ysgol, yn cynnwys gweithio mewn siop 'sgidiau a bod yn was sifil i'r swyddfa treth ar werth. Tra yn blentyn roedd ei dad yn hoffi cerddoriaeth y Rolling Stones, Beatles a Jimi Hendrix ac roedd yn gwrando ar lawer o'r recordiau yma wrth dyfu i fyny. Bu'n aelod o fand pync U Tant ac wedyn ymunodd a'i frawd yn y band Crumblowers.

Newidiwyd bywyd Owen ar un nos Wener yn Rhagfyr 1995 pan ofynnwyd iddo ddysgu pedwar deg o ganeuon y band Catatonia erbyn fore Llun canlynol pan oedd i ymuno â nhw yn Fulham ar gyfer sesiwn recordio! Bu'n aelod, gitarydd a chyfansoddwr i'r band am chwe blynedd tan ddaeth y band i ben yn 2001. Un o'i hoff ganeuon iddo gyfansoddi i'r band oedd 'Strange Glue' a chafodd ei chanu'n hyfryd gan y prif-leisydd Cerys Mathews. Yn ystod y cyfnod, bu dau albwm o'u caneuon yn siartiau a buont yn teithio o gwmpas Ewrop, Yr Unol Daleithiau, Japan, Awstralia a Seland Newydd. Un o arwyr Owen yw Keith Richards, gitarydd y Rolling Stones, Keith Richards a chafodd Catatonia y profiad o gefnogi'r Stones mewn cyngerdd yn yr Iseldiroedd. Y gynulleidfa fwyaf niferus iddo berfformio o'i blaen oedd chwarter miliwn o bobol yn 'Party In The Park', Llundain.

Ers i Catatonia wahanu mae Owen wedi gweithio ar lawer prosiect cerddorol ac wedi cyfansoddi a rhyddhau miwsig o dan yr enw Don Ya Ya. Mae ganddo stiwdio fechan yn ei gartref lle mae'n byw gyda'i bartner Betsan.

Cafwyd cyfle i holi nifer o gwestiynau i Owen ar ddiwedd ei gyflwyniad gwych a chawsom noson hwylus a difyr iawn yn ei gwmni. Diolchwyd iddo gan Eurfyl ac Eifion Griffiths. Diolchwyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.

**BAR BECA**
Rhosfach, Efailwen
**Guto Jenkins**
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
**Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar**


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
**GWION JENKINS**
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574



Owen Powell yng nghwmni Ken Thomas ac Eurfyl Lewis

**CYMDEITHAS Y BEIBL : CYLCH BECA**

Cawsom wasanaeth diddorol yn Nebo ar ddiwedd Ionawr i orffen ein casgliad ar gyfer Cymdeithas y Beibl yn 2024 a diolch i Janice Morgan am ei chyn-nwys. Diolchwn i bawb am eu cyfraniadau a dyma restr o'r hyn derbyniwyd:

| | |
|---|---|
| Nebo | 50.00 |
| Horeb | 20.00 |
| Blaenconin | 25.00 |
| Rhydwilym | 50.00 |
| Calfaria | 100.00 |
| Bethel | 75.00 |
| Cefn y Pant | 25.00 |
| Bethesda | 25.00 |
| Pisga | 90.00 |
| Glandwr | 25.00 |
| Casgliad yn ystod ein gwasanaeth yn Nebo ar 19eg Ionawr 2025 | 75.00 |
| **Cyfanswm** | **£560.00** |

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Mawrth 2il dan ofal Mrs Orinda Roberts. Diolch iddi am ei gwasanaeth.

Cynhaliwyd oedfa arbennig iawn ar fore Sul, Mawrth 9fed, dan ofal y Parch Huw George. Yn dilyn y bregeth amserol fel arfer, bu Ivy Edwards ar ran yr aelodau yn diolch i Wyn Evans am ei wasanaeth diflino i waith yr eglwys yn Ramoth dros y blynyddoedd, yn bennaf fel trysorydd am bron i hanner can mlynedd ac yn awr yn ysgrifennydd dros dro hefyd. Derbyniodd rodd anrhydeddus o law Mr Hubert Phillips, un o ddiaconiaid yr eglwys.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Meirwen hefyd gan Susan Davies am ei chyfraniad hithau i'r capel.

Diolchodd Wyn am y rodd annisgwyl, teimlai yn fraint fod yr eglwys wedi ymddiried ynddo i wneud y gwaith a diolchodd i bawb am y gefnogaeth a'r cydweithio hapus o fewn yr eglwys.

Yn dilyn yr oedfa aeth pawb i'r festri i fwynhau'r wledd a chymdeithasu ymhellach. Diolchodd John Phillips i'r merched am baratoi'r lluniaeth.

O dad rho ddiolch beunydd
I drysor o drysorydd,
Hoelen Wyth Ramoth a'i ffydd
A blynyddoedd llawn llawenydd.



Hubert Phillips yn cyflwyno rhodd i Wyn

**Trefn oedfaon mis Ebrill**

6ed: Oedfa gymun dan ofal Miss Donna George - 10.30
13eg: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30

**Gwellhad**

Dymuniadau gorau i Roy Llewellyn, Bro Gronw sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

....hefyd i Susan Phillips, Waunfawr, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

....hefyd i Merle Jones, Bancyfelin sy'n brwydro'n ddewr yn erbyn afiechyd.

**Penblwydd yn 100 oed**

Dymunir Benblwydd hapus i Nansi Evans, Penybont a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 100 oed ar Ebrill 25ain. Mae'r teulu wedi trefnu dathliad yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy ar brynhawn Sadwrn, 26ain Ebrill rhwng 1 a 3 o'r gloch.
Croeso cynnes i deulu a ffrindiau i ymuno â hi.
Dim anrhegion ond os dymunir, bydd unrhyw gyfraniad yn mynd i elusen o'i dewis.

PEIRIANNEG MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA POST
Ffôn: 01994 448221

Jones Login
Teithiau o Safon
Gwasanaeth o'r safon uchaf
Login, Hendy-gwyn ar Daf
Sir Gaerfyrddin. SA34 0UX
Ffôn: 1437 563277
info@joneslogin.co.uk
www.joneslogin.co.uk

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL LLYS HYWEL

**Dydd Gwyl Dewi**



Braf oedd gweld plant yr ysgol yn gwisgo lan yn eu gwisgoedd Cymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar ôl gwyliau'r hanner tymor. Cafodd y plant gyfle, yn eu dosbarthiadau, i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau - siopa am gynhwysion lleol i baratoi a choginio cawl blasus a phice ar y maen.

**Diwrnod y Llyfr**



I ddathlu diwrnod y llyfr eleni, gwisgodd y plant lan yn seiliedig ar eu hoff lyfr. Cymerwyd rhan mewn sawl gweithgaredd hefyd gan gynnwys bas data llyfrau, ysgrifennu adolygiad llyfr, gwaith animeiddio ag ymweld ậ'r llyfrgell leol.

**Nofio**

Dyma lun o ddisgyblion blwyddyn 3 i 6 sydd wedi gorffen bloc o nofio yn Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin. Roedd y plant wedi mwynhau'r gwersi gyda'r staff am y bythefnos.

Hefyd, hoffwn longyfarch Amelia Lennon am gystadlu yng nghystadleuaeth Nofio mis diwethaf.



Plant fu'n nofio

**Rygbi**

Llongyfarchiadau i Polly McNamara a Daisy Stretton, ein disgyblion blwyddyn 6 am gynrychioli ysgolion Caerfyrddin yn rygbi eleni - Gwych!

# YSGOL BANCYFELIN

**Diwrnod Diogelwch ar y We**

Cyfle y Dewiniaid Digidol oedd hi ar Chwefror 11eg i godi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Diogelwch ar y We. Trefnwyd llawer o weithgareddau hwylus yn ystod y diwrnod gan gynnwys Gwasanaeth, gweithgaredd rheolau SMART a gwers fyw ar Adobe Express gyda Meredudd Jones.

**Eisteddfod Offerynnol yr Urdd**

Llongyfarchiadau i un o'n disgyblion am gynrychioli'r ysgol ar lwyfan yr Eisteddfod offerynnol yn Neuadd y Gwendraeth a gynhaliwyd ar Chwefror 13eg. Rhoddwyd perfformiad graenus o 'Ex's and Oh's' ar y gitar ac rydym i gyd yn falch iawn ohono.

**Trip i Lansteffan**



Cafwyd trip hyfryd i Lansteffan i gloi'r hanner tymor er gwaetha'r tywydd. Mwynhaodd y disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol fel Ffederasiwn. Diolch o galon i Huw Iorwerth am ddiddanu'r disgyblion fel Arglwydd y Castell ac am rannu hanesion diddorol am y castell a bywyd yn ystod y cyfnod. Diolch hefyd i Kerry o Keep Wales Tidy am ddod ag offer casglu sbwriel a hefyd i Rhian o Griw Clirio Llansteffan am gwrdd â ni lawr ar y traeth er mwyn tacluso'r traeth.

**Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi**



Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol ar ddydd Llun, Mawrth 3ydd ar ôl i'r plant ddychwelyd i'r ysgol wedi gwyliau hanner tymor. Cafwyd llawer o hwyl yn canu, llefaru, chwarae gemau a chwblhau tasgau yn y dosbarth ar gyfer cystadlaethau gwahanol. Diolch o galon i Mrs Trefina Jones am ddod atom i feirniadu, roedd y plant wedi mwynhau ei gweld yn ôl yn yr ysgol unwaith eto. Llongyfarchiadau i dîm y Llewod am ddod yn fuddugol eleni.

**Diwrnod y Llyfr**



Dathlodd disgyblion yr Ysgol Ddiwrnod y Llyfr trwy ddod â'u hoff lyfr i'r ysgol er mwyn rhannu gyda gweddill y dosbarth.

Trefnodd y Cyngor Eco sesiwn cyfnewid llyfrau er mwyn annog y disgyblion i ailgylchu llyfrau. Diolch yn fawr i Free Books Carmarthen am ddarparu llyfrau ychwanegol er mwyn hwyluso'r digwyddiad.

# YSGOL BECA

**Dathlu Gŵyl Ddewi, Eisteddfod a Diwrnod y Llyfr**

Bu Ysgol Beca yn llawn dathlu wythnos gyntaf mis Mawrth gyda gweithgareddau arbennig i nodi Gŵyl Ddewi, Eisteddfod yr ysgol a Diwrnod y Llyfr. Roedd yr awyrgylch yn llawn balchder Cymreig wrth i'r disgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o berfformiadau ac eitemau cystadleuol yn ystod yr Eisteddfod. Cafwyd canu, adrodd a dawnsio arbennig, a llwyddodd y plant i greu argraff fawr gyda'u doniau a'u brwdfrydedd.



Dathlu Gŵyl Dewi

Yn ogystal, daeth lliw a chyffro ychwanegol i'r ysgol wrth i'r disgyblion wisgo fel eu hoff gymeriadau llenyddol ar gyfer Diwrnod y Llyfr. Cafwyd gweithgareddau creadigol, darllen straeon a chystadlaethau gwisg, gan sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau.



Diwrnod y Llyfr

Dywedodd y pennaeth ei fod yn hynod falch o'r plant am eu hymdrechion ac amgylchedd cynnes yr ysgol yn ystod y dathliadau. Diolchodd hefyd i'r staff a'r rhieni am eu cefnogaeth barhaus, gan nodi fod y digwyddiadau hyn yn atgyfnerthu ymdeimlad o gymuned a balchder yn Ysgol Beca.

Mae'n amlwg fod yr wythnos hon wedi bod yn un fythgofiadwy i'r disgyblion ac yn llwyddiant ysgubol i'r ysgol.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Dydd Gŵyl Dewi**

Ar Ddydd Llun, Mawrth y 3ydd y dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni gyda'r plant yn eu crysau coch a'u gwisgoedd traddodiadol. Cafodd pawb fasned o gawl i ginio. Trefnwyd gweithgareddau i ddathlu traddodiadau Cymru ym mhob dosbarth gan gynnwys sesiynau coginio pice ar y maen a sesiynau celf cennin Pedr. Mwynhaodd Dosbarth Dewi dwmpath dawns a bu Dosbarth Culhwch yn ymchwilio i hanes yr Arglwyddes Llanofer a'r wisg draddodiadol Gymreig. (*Llun ar dudalen flaen).*

**Diwrnod y Llyfr**



Dathlwyd Diwrnod y Llyfr eleni ar Fawrth y 6ed. Gwisgodd y plant i gyd fel hoff gymeriadau o lyfrau. Bu pob dosbarth yn cynnal gweithgareddau ynghlwm â darllen yn ystod y dydd gan gynnwys dylunio clawr newydd ar gyfer hoff lyfrau ac ysgrifennu adolygiadau.

**Siarter Iaith**

Bu tim dosbarth Pwyll yn cystadlu yn ail rownd 'Cwis Dim Clem Menter Sir Gâr' yn yr Atom gan lwyddo i ddod

yn fuddugol. Aethant ymlaen i gystadlu wedyn yn y rownd Rhanbarthol gan golli y tro yma i Ysgolion Bryn Iago a Rhydaman.




Llongyfarchiadau mawr i Isabella, Jessica, James a Cora.

**Ymwelwyr**



Hyfryd oedd croesawu Mr Cefin Campbell AC i'r ysgol i siarad gyda Dosbarthiadau Cam Cynnydd 3 am rôl Y Senedd yn ein bywyd bob dydd yng Nghymru. Cafodd y plant gyfle i baratoi a holi cwestiynau i Mr Campbell am ei waith ef o fewn y Senedd.

Roedd yn rhan o waith y dysgwyr ar y thema 'Cymru, ein gwlad.' Diolch iddo am roi o'i amser prin i ni fel ysgol.

Daeth Janet Hawkins o gwmni 'Bible Explorer' i'r ysgol i gynnal cyfres o weithdai gyda dosbarth Myrddin. Cyflwynwyd copi o Beibl y plant yn rhodd i bob disgybl ym Mlwyddyn 5.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Eisteddfod Offerynnol**



Ar ddydd Iau y 13eg o Chwefror cystadlodd Lois, Amelia, Carla a Willow yn yr Unawd Piano yn Eisteddfod Offerynnol yr Urdd yn Neuadd y Gwendraeth.

**NSPCC Pants**

Diolch i Kirsten nyrs yr ysgol am ddod allan i siarad gyda disgyblion yr ysgol am bwysigrwydd PANTS gyda chymorth dinosor cyfeillgar Pantosaurus. Mae 'Talk Pants' yn sgwrs sy'n helpu i gadw plant yn ddiogel.

**Dydd Gŵyl Dewi**



Bu dathlu mawr ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda phawb wedi gwisgo mewn gwisgoedd Cymreig neu ddillad coch. Cawsom ddathliad hyfryd yn Neuadd y Farchnad yn rhannu ac arddangos eitemau Cymreig megis canu, dawnsio gwerin a chlocsio i'r rhieni a'r gymuned dros disied o goffi a the a pice ar y maen a bara brith.

Diolch i aelodau'r Siarter Iaith am drefnu dathliad Cymreig llwyddiannus ag am drefnu creu hamperi Cymreig yn llawn nwyddau lleol. Diolch i bawb am ei cyfraniadau ar gyfer y hamperi ac i'r Neuadd am adael i ni ddefnyddio'r adeilad a'i chyfleusterau.

Pethau Olyv
Ffasiynau, gemwaith ac ategolion merched
Mermaid Buildings
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230590
info@pethauolyv.co.uk

Premier
MAELFA
Siop y Pentref
Clunderwen
Nwyddau o bob math am brisiau cystadleuol
01437 563200

PREN DA
Gwaith coed o bob math
Dafydd Makepeace
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn: 07967 220289

**Diwrnod y Llyfr**



Ar ddydd Iau, 6ed o Fawrth, buom yn dathlu 'Diwrnod y llyfr'. Braf oedd gweld pawb wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr. Bu pob dosbarth yn gwneud gweithgareddau i hybu sgiliau darllen. Cafodd pob plentyn tocyn llyfr ar ddiwedd y dydd.

**Ymwelwyr**

Braf oedd gallu croesawu Shirley atom y mis yma i gynnal gwasanaeth i'r disgyblion. Dysgwyd am garedigrwydd a stori'r Samariad Caredig.

## YSGOL BRYNCONIN

**Dydd Miwsig Cymru**

Braf oedd cael dathlu Diwrnod Miwsig Cymru mewn steil ar ddydd Gwener, 14eg o Chwefror fel Ffederasiwn. Roedd nifer wedi gwisgo i fyny fel eu hoff ganwr o Gymru a chafwyd hwyl yn canu, dawnsio a dysgu caneuon Cymraeg.

**Twrnament Rygbi'r Urdd**



Da iawn i dîm rygbi'r Ysgol am gystadlu'n dda yn nhwrnament rygbi'r Urdd ar Ddydd Mawrth, 18fed o Chwefror. Roedd pawb wedi brwydro'n galed iawn ac wedi chwarae'n dda.

**Dydd Gŵyl Dewi**



Braf oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig neu wedi gwisgo mewn coch ar Ddydd Llun, 3ydd o Fawrth. Cafwyd cyfle i ddysgu am ein nawddsant a chyfle i ddathlu ein Cymreictod. Braf oedd cael dathlu ein traddodiadau a chofio am eiriau pwysig Dewi Sant – Gwnewch y Pethau Bychain.

**Eisteddfod Ysgol**



Da iawn i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfod Ysgol ar ddydd Mercher, 5ed o Fawrth. Braf oedd gweld y plant yn ymdrechu a gwneud eu gorau glas a braf oedd gweld pob un disgybl yn cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau enfawr i'r rhai a ddaeth yn fuddugol yn arbennig i Cynan Makepeace am ennill y gadair, Deri Nicholas am ennill y goron, Magi John am ennill tlws Mrs A Huws am yr unigolyn a enillodd y fwyaf o bwyntiau ar y diwrnod ac i Dŷ Bronfaith am ennill y fwyaf o bwyntiau yn yr Eisteddfod. Diolch i Mr Rhidian Evans am feirniadu ac i Mr Peter Lewis am greu y gadair hardd eleni eto.

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab
Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LLWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

**Diwrnod y Llyfr**

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr mewn steil eleni. Ar ddydd Gwener 7fed o Fawrth roedd Ysgol Brynconin yn llawn lliw o gymeriadau o lyfrau gwahanol. Braf oedd gweld y disgyblion yn eu gwisgoedd a chynlluniwyd nifer o weithgareddau hwyl yn ymwneud â llyfrau.




Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Gwe 25 | **Torvill a Dean 'Our Last Dance' a Stratford upon Avon** | 2 |
| **Mai 2025** | | |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Chicago, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | **Caernarfon ac Ynys Môn** | 5* |
| Sad 17 | *Sioe Gerdd Only Fools & Horses, CMC* | 1 |
| Sad 17 | **Yr Alban - Perth a'r Canolbarth** | 7 |
| **Mehefin 2025** | | |
| Llun 9 | **Ardal y Peak District** | 5* |
| Mer 18 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| Llun 30 | **Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog** | 5* |
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| Sad 26 | *Sioe Gerdd Joseph a'i got amryliw, CMC* | 1 |
| **Awst 2025** | | |
| Llun 4 | **Eisteddfod a Chaer** | 6* |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Gwe 20 | **Penwythnos Siopa Uwchsonig (Concorde)** | 2 |
| Llun 23 | **Iwerddon—Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Sad 4 | **Elvis Evolution a Windsor** | 2 |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Palas Blenheim a Windsor** | 2 |
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | |
| Gwe 12 | **Twrci a Tinsel - Blackpool** | 4 |
| Maw 16 | *Rob Brydon, Arena Utilit, Caerdydd* | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd | 1 |

2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma / Archebwch ar lein nawr / Llyfryn 2025 ar gael nawr!**



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 28ain Mawrth | LOOE, ARFORDIR CERNYW a'r "EDEN PROJECT" | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 31ain Mawrth | RHYFEDDODAU WEYMOUTH a "JURASSIC COAST" | £445 | 5 Diwrnod |
| Llun 7fed Ebrill | LLANBERIS a RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU | £555 | 5 Diwrnod |
| Sad 12fed Ebrill | BLAS o GYMRU o WESTY'r TYNEDALE LLANDUDNO | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 14eg Ebrill | TULIPS a MELINAU GWYNT YR ISELDIROEDD | £695 | 5 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS A (Seddi Gwaelod) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS B (Seddi Uwch) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORQUAY, TOTNES a taith llong ar yr Afon DART | £365 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Ebrill | Yr HYFRYD SANDOWN ar YNYS WYTH | £465 | 5 Diwrnod |
| Llun 5ed Mai | "Wedgwood Wonders, Trentham Treats & Cheshire Charms" | £580 | 5 Diwrnod |
| Maw 6ed Mai | GUERNSEY | £1,100 | 6 Diwrnod |
| Llun 12fed Mai | Manchester - Concorde, Lowry a Gardd Godidog RHS | £505 | 5 Diwrnod |
| Sul 18fed Mai | "CALL THE MIDWIFE" a DINAS HYNAFOL CAINT | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 19eg Mai | TAITH DDIRGEL MIS MAI | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 23ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £440 | 3 Diwrnod |
| Sul 25ain Mai | TAITH ANTUR FAWREDDOG yr ALBAN | £1,750 | 12 Diwrnod |
| Gwe 30ain Mai | PENWYTHNOS "ABBA VOYAGE" yn LLUNDAIN | £410 | 3 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mehefin | MINEHEAD a RHEILFFORDD "WEST SOMERSET" | £455 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Mehefin | MEYSYDD y BRWYDRO yn NORMANDI | £825 | 5 Diwrnod |
| Sul 15fed Mehefin | GOGONEDDAU CUDD yr IWERDDON | £775 | 6 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mehefin | GERDDI a GRAWNWIN SURREY | £440 | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Mehefin | CASTLE HOWARD a DINAS HYNAFOL EFROG | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mehefin | WEYMOUTH | £405 | 4 Diwrnod |
| Maw 1af Gorffennaf | LLANDUDNO a YNYS SEIRIOL YNYS MON | £585 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Gorffennaf | MORDAITH ar AFONYDD RHINE a MOSELLE yn yr ALMAEN | £1,950 | 9 Diwrnod |
| Sad 12fed Gorffennaf | CESTYLL a GWARTHEG UCHELDIR YR ALBAN | £720 | 6 Diwrnod |
| Iau 17eg Gorffennaf | Taith Fyr I'r COTSWOLDS | £310 | 3 Diwrnod |
| Llun 21ain Gorffennaf | GORORAU CYMRU | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Gorffennaf | AGER, JIN a'r NEW FOREST yn HAMPSHIRE | £530 | 5 Diwrnod |
| Gwe 1af Awst | Taith i Stiwdio yr enwog CORONATION STREET | £380 | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

CYFRES Wenfro

# Parau o Wyau

★ **CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Bwriad Lilwen a Dilwen, yr ieir, oedd peintio 10 pâr o wyau Pasg, ond mae ambell wy heb bâr.
**Fedrwch chi ddarganfod rhifau'r wyau hynny?**




**Pasg hapus, bawb!**

**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/04/25**

Leia Jenkins, Ael y Bryn, Meidrim yw enillydd Cystadleuaeth Llyn Llythrennau

Ateb: Gwas y neidr oedd y gair coll.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

# Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2024-25**
Mae tymor 2024-25 yn mynd yn ei flaen i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae ambell gêm yn ystod mis Chwefror a dechrau Mawrth yn ogystal â'n hadran iau.

**Tîm 1af**
Mae ein tîm cyntaf sydd yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2024-25, wedi chwarae tair gêm, gan ennill dau a cholli un. Golyga hyn ei bod yn eistedd yn y 4ydd safle yn y gynghrair gyda pedair gêm yn weddill yn y gynghrair.

Chwefror 8fed: Cei Newydd 2-5 Llanboidy (Daf Jones x2, Calum Syddall x2 a Geth Scourfield)

Mawrth
1af: Llandudoch 7 - Llanboidy 0
8fed: Llanboidy 3 - Castell Newydd Emlyn 2 (Daf Jones, Calum Syddall x2)

**2il Dîm**
Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Pedair gêm mae'r ail dîm wedi chwarae dros y mis diwethaf, gan ennill dau a cholli dau.

Chwefror
8fed: Llanboidy 2 - Aberteifi 5 (Will Abbott, Charlie Jones)
22ain : Llanboidy 4 - Aberteifi 3 (Oliver Johns, Rhodri Lewis, Phil Howells, "Own Goal")

Mawrth
1af: Llanboidy 2 - Llanon 6 (Charlie Jones, Phil Howells)
8fed: Pencader 3 - Llanboidy 4 (Iwan Thomas, Chris Bowen, Ollie Johns, "Own Goal")

Bydd ein hymarferion bob nos Lun ar Astro Ganolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8-9yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**
Mae'r tymor hefyd yn parhau i'n hadran iau. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y misoedd diwethaf. Mae nifer o gemau wedi'i chwarae ar foreau Dydd Sadwrn, mae'n braf gweld datblygiad ein chwaraewyr ifanc.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. *Rhodri Lewis*


Tîm dan 12 yng nghwmni Rhodri


Tîm dan 10

*Clwb Rygbi Hendygwyn - parhad o dudalen 36*

**Tim dan 14**
Cafodd y gêm yn erbyn Llanbed ei ohirio oherwydd y tywydd gwael.

**Timoedd dan 12**
Maent dal yn ennill gemau ac mae pedair o'r merched wedi cael ei dewis i dîm dan 11 Sir Gaerfyrddin. Llongyfarchiadau mawr i Neve Rees, Polly McNamara, Ruby Griffiths a Daisy Eynon.




**Timoedd dan 8 a 10**
Bydd timoedd dan 8 a 10 yn dechrau ymarfer ar Ebrill 2il. Croeso cynnes i bawb.

*Suzanne Davies*



# CHWARAEON



## Clwb Rygbi San Clêr

Fe wnaethom deithio i Gydweli ar Chwefror 15fed gan dargedu buddugoliaeth yn ei herbyn, er ein bod yn gwybod y byddai'r amser hyn o'r tymor yn anodd, gyda thimau'n chwarae am bwyntiau gwerthfawr. Roedd y gêm yn debyg i'n gêm gartref yn gynharach yn y tymor, gyda dim byd i wahanu'r ddau dîm yn yr hanner cyntaf, gyda Cydweli yn arwain 3 - 0 ar hanner amser. Cawsom rhai cyfleoedd, ond methwyd manteisio ar y cyfleoedd hynny, wrth i sawl cic cosb gael eu methu. Roedd amddiffyn y ddau dim yn gadarn drwy gydol y gêm. Ar ôl yr egwyl, sgoriodd Cydweli 2 gais cyflym i wneud y sgôr yn 13 - 0. Dechreuom ni ennill tiriogaeth dda, gan frwydro nôl mewn i'r gêm drwy sgorio 2 gais ein hunain, gan Dafydd Waters, un wedi'i drosi gan Che Thomas, i wneud y sgôr yn 13 – 12. Er gwaethaf ein holl ymdrechion, daliodd Cydweli ni allan a gyda nifer o giciau coll, ni chawsom y fuddugoliaeth roeddwn wedi gobeitho amdano.

Ein gêm nesaf oedd ein gêm adref olaf o'r tymor yn erbyn Aberystwyth, sydd ar frig y gynghrair. Ar ôl chwarae yn eu herbyn ddwy waith y tymor hwn (gynghrair a cwpan), roeddem ni'n gwybod pa mor gryf oedd eu tîm. Roedd hyn yn wir, ond gyda'r Seintiau fodd bynnag, yn cael dylanwad cynnar a digon o diriogaeth, ond methu â throsi pwysau i bwyntiau. Yn siomedig, o ganlyniad i daclo gwael, ildiwyd 2 gais hawdd a chafodd y ddau eu trosi gyda'r sgôr ar yr egwyl yn 0 - 14. Parhaodd y Seintiau i frwydro'n dda drwy gydol y gêm a chafodd y darn gosod ei weithredu'n dda iawn, er bod amddiffyn cryf Aber wedi ein cyfyngu i ychydig iawn o gyfleoedd. Fe wnaethom lwyddo i groesi'r gwyngalch yn y pen draw gyda chais a sgoriwyd gan Brandon Davies. Sgoriodd Aberystwyth 3 cais ychwanegol i wneud y sgôr terfynol yn 5 - 33. Cymeron ni'r cyfle ar y diwrnod i ddiolch i Wendy, ein physiotherapydd a'n cymorth cyntaf, a fydd yn ymddiswyddo ar ddiwedd y tymor, ar ôl bod gyda'r Seintiau am 24 tymor. Diolch o galon i Wendy am dy wasanaeth teyrngar dros y blynyddoedd. Ein gêm gynghrair nesaf, ac un olaf y tymor, fydd i ffwrdd yn erbyn Dinbych y Pysgod.

Cafodd gêm gynghrair y ieuenctid yn erbyn Felinfoel ac Athletic Caerfyrddin eu gohirio gan ein gwrthwynebwyr a byddant yn chwarae Athletic Caerfyrddin adref ar yr 8fed o Fawrth. Yn y cyfamser, buom yn chwarae adref yn erbyn Llanbedr Pont Steffan ar y 15fed o Chwefror gan ennill gêm agos 17 - 15 yn erbyn tim cryf Llanbed. Da iawn y Seintiau. ***Gwyndaf Williams***







*Lluniau: Chris Rees*

## Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**

Chwefror 15fed - colli 45 - 14 i ffwrdd yn erbyn Abergwaun. Roedd cefnwyr Abergwaun ar dân drwy gydol y gêm a gwnaethant sgorio sawl cais gwych.

Mawrth 1af - colli adref ar Ddydd Gŵyl Dewi yn erbyn Casllwchwr 14 - 20, oedd un pwynt odanom yn y gyngrhair cyn y gêm hon.

**Menywod**

Colli oedd ei hanes yn erbyn Porth Tywyn 34-12 mewn gêm Gwpan. Dim trip i Caerdydd i ni eleni felly. Cafodd gêm i ffwrdd yn erbyn Caernarfon ei ohirio ar Chwefror 23ain oherwydd y tywydd gwael, ond rydym yn edrych ymlaen i fynd lan i Gaernarfon ym mis Ebrill. Cafodd y gêm gynghrair adref yn erbyn Pontyclun ar Fawrth 2il ei gohirio oherwydd bod gymaint o chwaraewyr wedi eu hanafu.

**Merched**

Dal yn cael trafferth i gael gemau i'r timoedd merched 16/18 oed, ond yn gobeithio cael rhai ym mis Mawrth.

*parhad ar dudalen 35*